

Croeso i Gymru:

Blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr
2020 – 2025.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Cynnwys.

Croeso	3
Cyflwyniad	4
Ynglŷn â'r cynllun hwn	5
Cyflawni gyda'n gilydd	6
Y cynllun ar dudalen	7

Ein cynllun:

Uchelgais a nodau	8
Dull gweithredu	9
Arlwy craidd Cymru	10
Amcanion y brand	11
Ein hymwelwyr	12
- Mathau o ymwelwyr	
Blaenoriaethau Croeso Cymru	15
- Cynnyrch a lleoedd gwyh	
- Profiadau o ansawdd i ymwelwyr	
- Brand arloesol i Gymru	
- Sector cysylltiedig a bywiog	

Blaenoriaethau masnachol	33
- Llwybrau gwell i'r farchnad	
- Ffocws ar brofiadau o ddiddordeb arbennig	
- Partneriaethau masnachol	
Blaenoriaethau llesiant	36
- Cynaliadwyedd amgylcheddol	
- Cyfoethogi cymdeithasol a diwylliannol	
- Buddiannau iechyd	
Gweithredu	41
Mesur llwyddiant	42

Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru ar ochr pobl yng Nghymru. Rydym yn anelu at greu gwlad fwy ffyniannus, cyfartal a gwyrdd.

Mae Cymru fwy llewyrchus yn golygu creu economi ffyniannus, sy'n gyfiawn yn gymdeithasol, sydd o fudd i bawb, yn deg ac sy'n mynd i'r afael ag achosion tlodi.

Mae Cymru gyfartal yn golygu darparu gwasanaethau cymdeithasol gwell, helpu pawb sydd eu hangen, pan fydd eu hangen arnynt, lle mae eu hangen arnynt.

Mae Cymru fwy gwyrdd yn golygu creu cenedl gwbl gynaliadwy, lle caiff adnoddau eu rheoli er lles pawb, a'u diogelu ar gyfer y dyfodol. Mae'n golygu defnyddio pŵer amgylchedd naturiol Cymru a manteisio ar botensial technolegau newydd.

Byddwn yn defnyddio ein holl bwerau datganoledig i wneud i'n cenedl ffynnu. A byddwn yn manteisio ar ddoniau pawb yng Nghymru er mwyn i ni ffynnu gyda'n gilydd. Bydd y llywodraeth hon yn gwneud penderfyniadau er budd pawb, ym mhob rhan o Gymru, ar gyfer y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol. Rydym yn adeiladu Cymru fel gwlad hyderus ac agored, gyda diwylliant cryf, dwyieithog a chroesawgar.

Byddwn yn defnyddio pob diwrnod a phob cyfle a gawn i sicrhau bod Cymru yn gymdeithas fwy cyfartal, teg a chyfiawn.

Croeso.



Fel rhywun sydd wedi byw fy mywyd o amgylch Eryri, rwy'n treulio sawl penwythnos yn rhedeg llwybrau yn y mynyddoedd uwchlaw Betws-y-Coed. Caiff fy ffordd o fyw, a'n diwylliant yma yng Nghymru, eu llywio gan ein tirweddau, sy'n fwrwm o greadigrwydd ac antur. Mae'r llwybrau rwy'n eu defnyddio yn llawn o ymwelwyr o bob cwr o'r byd – ond maent yn eiddo i'n cymuned ni hefyd, ac rydym yn rhannu'r daith gyda'n gilydd.

O'r dechrau, roeddwn am i'n cynllun groesawu'r cyfle y mae twristiaeth yn ei gynnig i gyfrannu at economi Cymru yn gyffredinol, ynghyd â gwella llesiant ein gwesteion a'n cymunedau fel ei gilydd. Mae twristiaeth yn cysylltu ein gwlad â phobl o bob cwr o'r byd. Mae'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i bob agwedd ar fywyd yng Nghymru: gan greu ffyniant, hyder, cyflogaeth, adfywio diwylliannol, gwerthfawrogiad amgylcheddol, buddiannau iechyd, a hwyl. Mae dyfodol ein diwydiant yn mynd law yn llaw â dyfodol ein cymunedau; gall yr hyn sy'n dda i ymwelwyr fod yn dda i bobl leol. Ac felly, y nod yw sicrhau bod twristiaeth yn chwarae rôl allweddol yn atgyfnerthu hyfywedd economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol Cymru, ac yn helpu i greu Cymru iachach a hapusach. Mae'r cynllun hwn yn dangos sut y byddwn yn gwneud hynny.

Dechreuodd y broses gynllunio drwy gael sgwrs â'r sector. Diolch am eich ymatebion ystyrlon. Yr hyn a ddaeth i'r amlwg oedd barn

bod twristiaeth yng Nghymru mewn sefyllfa gref, a bod sector twristiaeth bywiog ond cynaliadwy yn dda i Gymru. Ac felly esblygiad nid chwyldro yw'r cynllun hwn, gan adeiladu ar y cyfeiriad cyffredinol a bennwyd gennym chwe blynedd yn ôl.

Ond mae'r cynllun hwn hefyd wedi'i adeiladu ar ein huchelgais i geisio sicrhau cenedl fwy ffyniannus, cyfartal a gwyrdd.

Rydym yn uchelgeisio – rydym am helpu i dyfu'r sector. Ond rwyf am gyflawni'r twf economaidd hwnnw ag ymdeimlad newydd o ddiben, gan gydnabod pwysigrwydd sylfaenol diogelu a gwella ein hamgylchedd, diwylliant ac ieithoedd, a lleoedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r diwydiant yn glir bod hyn yn bwysig yn ei rinwedd ei hun, ac am fod twf hirdymor y sector yn dibynnu ar ofalu am yr union bethau sy'n denu ymwelwyr yno yn y lle cyntaf. Dyma y bydd marchnadoedd y dyfodol yn ei ddisgwyl hefyd. Credwn fod agenda economaidd uchelgeisio – wedi'i gydbwysu ag ystyriaeth ar gyfer llesiant yn y dyfodol – yn gwella profiad pawb o dwristiaeth yn y pen draw.

Eich diwydiant chi ydyw; rwy'n gweld y cynllun hwn fel llwyfan i alluogi'r sector a'n partneriaid i dyfu'n fasnachol, drwy wella bywydau pobl.

Ar lefel ymarferol, rydym yn bwriadu adeiladu ar y sylfeini cadarn sydd gennym – Brand ysbrydoledig Cymru, y prosiectau cyfalaf eiconig sydd ar y gweill a'r digwyddiadau

sy'n cael eu trefnu, ein cysylltiadau gwaith da â'r diwydiant a'n dull digidol o weithredu – heb roi'r ffidil yn y to gyda rhai heriau parhaus fel natur dymhorol twristiaeth yng Nghymru a helpu busnesau bach i fod yn fwy proffidiol. Y gwahaniaethau mwyaf yn y cynllun hwn yw'r pwyslais sylweddol ar y seilwaith sylfaenol sy'n sail i'r sector, ymdrech o'r newydd ar gynhyrchion arbenigol, buddsoddiad uniongyrchol yn y llety a ddarperir gennym a rôl fwy amlwg i Croeso Cymru yn datblygu sgiliau ar draws y sector.

Dros y blynyddoedd i ddod byddwn yn parhau i wrando'n ofalus ar ein diwydiant, ein hymwelwyr a phobl leol er mwyn sicrhau mai'r hyn rydym yn ei gyflawni yw twf cynaliadwy, da i bawb, yn seiliedig ar sail tystiolaeth gref ac wedi'i lywio gan uchelgeisiau llesiant ehangach Llywodraeth Cymru isod.

Gadewch i ni gymryd y gorau o Gymru a'i wella; cyfoethogi ansawdd bywyd pawb, p'un a ydynt yma i astudio, ar wyliau, neu i redeg yn y mynyddoedd.

Diolch.

Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant,
Chwaraeon a Thwristiaeth

Cyflwyniad.

Mae'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru mewn sefyllfa gref.

Dros y pum mlynedd diwethaf mae Cymru wedi croesawu'r niferoedd uchaf erioed o ymwelwyr â'r DU. Tyfodd gwerth ymwelwyr dros nos domestig 14% y llynedd, ac rydym ar y trywydd cywir i gyrraedd y targed twf o 10% erbyn 2020. Er bod twf rhyngwladol yn dal i fod yn her anodd, mae'r gymuned fusnes yn nodi'n gyson bod perfformiad yn gadarnhaol, ac er eu bod yn pryderu am gostau cynyddol, maent yn hyderus ar gyfer y dyfodol.

Mae mwy na 9% o'r gweithlu yng Nghymru bellach wedi'u cyflogi mewn twristiaeth. Dyma un o'r sectorau sy'n tyfu gyflymaff yn y wlad, ac mae o fudd i sawl ardal wledig fel prif ysgogwr yr economi a'r brif ffynhonnell gyflogaeth.

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae twristiaeth yng Nghymru wedi cael ei drawsnewid; mae ein tirweddau naturiol eithriadol bellach yn llawn profiadau ysbrydoledig o ansawdd uchel – gan ddenu sylw'r cyfryngau mewn cyhoeddiadau o The Sunday Times i National Geographic.

Rydym yn lle sy'n llawn:

anturiaethau arloesol, o'r llwybrau beicio mynydd gorau ym Mhrydain i forlyn syrffio mewndirol cyntaf y byd

treftadaeth y byd a threftadaeth Gymreig, sy'n rhoi cyfleoedd newydd i gofio'r gorffennol

tirweddau naturiol eithriadol, sy'n fwrwm o fywyd gwyllt a chyfleoedd i fyw bywyd egniol

diwylliant ffyniannus sy'n llawn bywyd mewn orielau, theatrau a gwyliau

llety sydd hefyd yn brofiad, gan gynnig golygfeydd gwledig gwych neu loches yn y coed

bwyd a diod a gyrchwyd yn lleol i'w flasau mewn digwyddiadau 'pop up' a bwytai gwych

cyrchfannau sydd â naws am le, lle mae gorffennol cyfoethog yn cyfuno â nodweddion cyfoes

calendr sy'n orlawn o ddigwyddiadau lleol a byd-eang cyfoethog – cerddoriaeth, llenyddiaeth, ffordd o fyw.

Ond o ystyried y pryderon lleol a byd-eang mewn perthynas â gormod o dwristiaeth a'r argyfwng hinsawdd, rydym yn wynebu heriau newydd.

Mae ein diwydiant twristiaeth yn aeddfed ac yn brofiadol ac mae lle i dyfu o hyd. Ond dywedodd ein diwydiant wrthym hefyd fod yn rhaid i dwf geisio cynnal – nid bygwth – y pethau pwysicaf. Mae angen i ni gydweithio mewn ffordd sy'n cefnogi llesiant y cryfderau sy'n denu pobl yma yn y lle cyntaf – ein tirweddau, diwylliant ac antur.

Mae'n rhaid i dwristiaeth sy'n dda i'n diwydiant hefyd fod yn dda i Gymru.

Dyna yn union beth y bydd ymwelwyr yn y dyfodol yn ei ddisgwyl.

Ein nod, yn y dyfodol, yw defnyddio'r economi ymwelwyr i gael budd ehangach.

Bydd y cynllun hwn yn amlinellu'r ffordd rydym yn bwriadu cyflawni hynny.

Ynglŷn â'r cynllun hwn.

Er bod y cynllun hwn yn amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol, ac yn egluro'r blaenoriaethau ar gyfer Croeso Cymru, dim ond un o nifer o bartneriaid ydym ni sydd â rhan i'w chwarae er mwyn cyflawni'r nodau hyn.

Croeso Cymru yw'r tîm o fewn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu a hyrwyddo'r economi ymwelwyr yng Nghymru. Rydym yn hwylusydd ac yn bartner – yn rhoi'r buddsoddiad, y cymorth a'r marchnata sy'n ofynnol i dyfu'r sector a chyfraniad y sector i fywyd ehangach yng Nghymru. Nid ydym yn sefydliad aelodaeth; rydym yma i wrando ar safbwyntiau'r diwydiant ledled Cymru, i gynrychioli ei fuddiannau ac i ddefnyddio dull gweithredu ar sail tystiolaeth.

Rydym yn gweithio'n agos gyda rhannau eraill o Lywodraeth Cymru – fel Cadw, yr Adranau Trafnidiaeth, Iechyd ac Addysg – er mwyn sicrhau bod anghenion y sector yn cael eu cydnabod a'u hadlewyrchu mewn polisi traws-lywodraethol a rhaglenni ymyrraeth. Ac rydym yn gweithio gyda'r economi ymwelwyr ehangach: sefydliadau yn y sector cyhoeddus, cyrff yn y sector preifat ac unigolion sy'n rhan o dwristiaeth o ddarparwyr llety, digwyddiadau a phrofiadau i awdurdodau lleol, sefydliadau naturiol a diwylliannol, cyrff trafnidiaeth a sawl un arall.

O ganlyniad, nid ydym wedi datblygu'r cynllun hwn ar ein pennau ein hunain. Mae wedi'i lunio drwy sgwrs eang â'r diwydiant a rhan-ddeiliaid. Eu consensws cyffredinol oedd bod angen i ni symud tuag at ddatblygiad economaidd cynaliadwy, gan ganolbwyntio ar sicrhau nodau llesiant ehangach ochr yn ochr â thwf masnachol. Roeddent am gael pwyslais newydd ar ddatblygu profiadau i ymwelwyr sy'n nodedig Gymreig – ond o ansawdd rhyngwladol – sy'n dda i ymwelwyr yn ogystal â'n cymunedau ein hunain.

Mae'r cynllun wedi'i lywio gan dueddiadau hirdymor sy'n dylanwadu ar dwristiaeth yn fyd-eang, o'r modd y mae disgwyliadau ymwelwyr yn newid, i'r ffactorau mawr sy'n llywio'r ffordd y mae pobl yn teithio. Yn ei hanfod, mae hefyd yn seiliedig ar ddadansoddiad manwl o berfformiad presennol yr economi ymwelwyr yng Nghymru, ac, yn benodol, ei ragolygon a'i botensial ar gyfer twf yn y dyfodol.

Brexit.

Er bod Brexit yn cyflwyno cyfleoedd a heriau ar gyfer twristiaeth i Gymru, prif nod Croeso Cymru yw creu delwedd gadarnhaol o Gymru fel gwlad groesawgar ac agored. Ein nod parhaus yw annog ymwelwyr â'r DU i gael gwyliau gartref o ansawdd uchel yma, a sicrhau bod ymwelwyr rhyngwladol yn canfod ac yn dewis Cymru.

Er y bydd angen i ni fod yn arbennig o hyblyg ac ystwyth dros y blynyddoedd i ddod, rydym yn credu mai'r ymateb strategol gorau i Brexit yw parhau â'n busnes craidd – cydnabod potensial parhaus twristiaeth i weithredu fel sylfaen i'r economi yng Nghymru drwy rannu neges gadarnhaol o Gymru. Mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio ar alluogi'r diwydiant i wneud yr hyn y mae eisoes yn ei wneud yn dda, hyd yn oed yn well – fel ymateb i Brexit a thu hwnt – gan wella ansawdd croeso Cymru, cefnogi cadwyni cyflenwi lleol, sicrhau bod ein harlwy yn addas i gynulleidfaoedd rhyngwladol a pharhau i farchnata Cymru gyda brand hyderus a nodedig yn y DU a thramor fel rhan allweddol o Strategaeth Ryngwladol newydd Llywodraeth Cymru.

Cyflawni gyda'n gilydd.

Fel y soniwyd uchod, er bod y cynllun hwn yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer Croeso Cymru, dim ond partner ydym ni o blith sawl un yn yr economi ymwelwyr ehangach ar gyfer Cymru. Er mwyn cyflawni'r cynllun, rydym yn eich gwahodd i ymuno â ni er mwyn cyflawni'r heriau sy'n ein hwynebu.

Mae twristiaeth yn faes sydd wedi'i ddatganoli'n llwyr. Mae VisitBritain yn parhau i fod yn gyfrifol am farchnata Prydain Fawr ar y llwyfan rhyngwladol. Mae Llywodraeth y DU hefyd yn gyfrifol am sawl maes sy'n effeithio ar lwyddiant twristiaeth yng Nghymru, o gysylltiadau ledled y DU i reoli ffiniau a Tholl Teithwyr Awyr. Rydym yn galw ar VisitBritain a Llywodraeth y DU i greu partneriaeth lawn â ni er mwyn cyflawni'r cynllun hwn – ac i alluogi Cymru i sicrhau cyfran gynyddol o ymwelwyr rhyngwladol â'r DU.

Rydym yn gwahodd ein sefydliadau Cymreig cenedlaethol a rhanbarthol i barhau i ganfod ffyrdd beiddgar a chreadigol o wella'r profiad a gynigiwn i'n holl westeion – o Drafnidiaeth Cymru i Amgueddfa Cymru a'n cyrff rheoli tirwedd dynodedig yn cynnwys Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol.

Ni ellir anwybyddu pwysigrwydd Awdurdodau Lleol fel rhan o adeiledd yr economi ymwelwyr yng Nghymru; maent yn gwneud cymaint i gefnogi'r economi ymwelwyr yng Nghymru, o'r profiad sylfaenol i ymwelwyr i hwyluso buddsoddiad mewn atyniadau a digwyddiadau eiconig, neu gynnal ymgyrchoedd marchnata lleol trawiadol er mwyn cefnogi brand Cymru. O ystyried yr heriau o ran y gyllideb, mae angen i ni arloesi er mwyn defnyddio datrysiadau rheoli cyrchfannau newydd sy'n sicrhau bod twristiaeth yn cyfoethogi bywydau pobl leol ledled Cymru fel bod ein cyllid yn mynd ymhellach ac yn sicrhau llesiant i bawb.

Ein partneriaid pwysicaf yn hyn oll yw busnesau twristiaeth yng Nghymru. Mae twristiaeth yn sector byd-eang hynod gystadleuol ac mae ein llwyddiant yn y dyfodol yn dibynnu'n llwyr ar fuddsoddiad, arloesedd a chydweithrediad parhaus gan y sector preifat. Mae'r cynllun hwn yn amlinellu'r ffordd y byddwn yn eich helpu chi i wneud i hynny ddigwydd, ac rydym yn gofyn i'r diwydiant gefnogi ein blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.

Mae'r cynllun hwn yn rhoi cyfeiriad a fydd yn ein helpu i symud ymlaen gyda'n gilydd ond mae ein sector yn ddynamig ac mae angen i ni allu addasu ein blaenoriaethau yn unol â hynny.

Felly wrth i'r cyd-destun rydym yn gweithredu ynddo esblygu, ynghyd â'n diwydiant a'n marchnadoedd, bydd y cynllun hwn hefyd yn esblygu, drwy ymgysylltiad parhaus â'n partneriaid, drwy ystyried y sail dystiolaeth a thrwy wrando'n weithredol ar ein hymwelwyr, y diwydiant a rhanddeiliaid ehangach.



Y cynllun ar dudalen.

Uchelgaïs				
Tyfu twristiaeth er budd Cymru				
Nodau				
Twf economaidd sy'n cyflawni buddiannau i bobl a lleodd	Cynaliadwyedd amgylcheddol	Cyfoethogi cymdeithasol a diwylliannol	Buddiannau iechyd	
Gwrando ar drigolion, ymwelwyr a busnesau				
Dull Gweithredu				
Profiadau o ansawdd uchel drwy gydol y flwyddyn sy'n dda i ymwelwyr a chymunedau lleol				
Cynhenid Gymreig – ag agwedd fyd-eang				
Bro – Cymreig a lleol		Byd – byd-eang		
Arlwy craidd Cymru				
Tirweddau naturiol eithriadol	Diwylliant creadigol		Antur epic	
Croeso: croeso cynnes, llety unigryw a bwyd a diod lleol				
Ffordd Cymru				
Amcanion y brand				
Codi ein statws	Syfrdanu ac ysbrydoli	Newid canfyddiadau	Gwneud pethau da	Bod yn gwbl Gymreig
Ein hymwelwyr				
Tymoroldeb		Gwariant		Dosbarthiad
Marchnadoedd gwyliau gartref newydd yn y DU		Ymwelwyr rhyngwladol – newydd i Gymru		Pobl Cymru
Mathau o ymwelwyr				
Ymwelwyr cyffredinol		Teithwyr busnes		Ymwelwyr diddordeb arbennig
Gweithredwyr teithio				
Blaenoriaethau allweddol Croeso Cymru				
Cynnyrch a lleoedd gwych Prosiectau dan arweiniad Croeso Cymru Buddsoddiad cyfalaf dan arweiniad diwydiant Creu lleoedd mewn ffordd integredig Digwyddiadau rhyngwladol a chartref, yn cynnwys digwyddiadau busnes	Profiadau o ansawdd i ymwelwyr Y pethau pwysig Lletygarwch gwych drwy'r cynllun graddio Twristiaeth bwyd Pobl fedrus Tîmau cynnyrch	Brand arloesol i Gymru Brand gwlad cryfach Marchnata addasol gyda ffocws ar gyfnodau llai prysur Un ymgyrch, dwy flwyddyn thematig Diwydiant digidol yn gyntaf Canolfan Ragoriaeth Croeso Cymru	Sector cysylltiedig a bywiog Ymgysylltu effeithiol â'r diwydiant a helpu uno llais y sector Data a dealltwriaeth well yn seiliedig ar anghenion y diwydiant Swyddogaeth strategaeth a pholisi cryfach Croeso Cymru sy'n ystywth ac yn ymatebol	
Blaenoriaethau masnachol				
Llwybrau gwell i'r farchnad		Ffocws ar brofiadau o ddiddordeb arbennig		Partneriaethau masnachol
Gweithredu				
Tim mewnol wedi'i ailstrwythuro		Strwythurau llywodraethu diwygiedig		Cymorth busnes wedi'i symleiddio
Adolygu darpariaeth ar lefel leol		Dulliau newydd — partneriaethau		

Uchelgais a nodau.


Ein huchelgais yw tyfu twristiaeth er budd Cymru. Mae hyn yn golygu cyflawni twf economaidd sy'n sicrhau budd i bobl a lleoedd gan gynnwys cynaliadwyedd amgylcheddol, cyfoethogi cymdeithasol a diwylliannol a buddiannau iechyd.

Mae'r cynllun hwn yn defnyddio *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* sy'n nodedig Gymreig fel ei sail, ac yn 'prif-ffrydio' ei weledigaeth drwy bopeth a wnawn. Mae hyn yn adlewyrchu safbwynt clir diwydiant bod angen i ni sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng twf economaidd a'n llesiant ehangach fel gwlad.

Prif nod ein cynllun fydd defnyddio'r potensial ar gyfer twristiaeth i wella llesiant economaidd ehangach Cymru. Mae twristiaeth yn un o'r sectorau prin sy'n mynd â swyddi i bobman. Rydym am i'n sector dyfu mewn modd pwrpasol drwy gydol y flwyddyn, gan helpu i ysgogi ffyniant mewn ardaloedd trefol a gwledig. Ein prif nod yw sicrhau lefel barhaus o dwf gan ganolbwyntio ar gyfnodau llai prysur – a chyfrannu mwy, drwy dwristiaeth, at Werth Ychwanegol Gros cyffredinol Cymru. Byddwn yn monitro twf y sector a'i gyfraniad at berfformiad economaidd ehangach Cymru. Rydym hefyd yn credu bod ffyniant economaidd yn allweddol ar gyfer cyflawni nodau llesiant eraill.

Fodd bynnag, yn unol ag adborth o'r diwydiant, byddwn yn rhoi dull gweithredu 'economi a mwy' ar waith. **Bellach, mae ein nodau yn cynnwys tyfu twristiaeth mewn ffordd sydd hefyd yn sicrhau buddiannau i bobl a lleoedd yn cynnwys cynaliadwyedd amgylcheddol, cyfoethogi cymdeithasol a diwylliannol, a buddiannau iechyd** (gweler isod). Bydd hyn ond yn ategu uniondeb a llwyddiant economaidd ein sector yn yr hirdymor. Gwyddom nad yw hyn yn syml. Bydd yn golygu gweithio a meddwl yn wahanol, gwneud dewisiadau anodd, a gwneud mwy er mwyn deall effaith ein penderfyniadau.

Yn y pen draw, nod y gwaith hwn yw **gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl**, p'un a ydynt yn ymwelwyr, yn rhan-ddeiliaid lleol neu'n berchenogion busnes. Bydd y cynllun hwn yn sicrhau bod twf economaidd a buddiannau llesiant ehangach yn y pen draw yn gwella ansawdd bywyd pawb y byddwn yn ymgysylltu â nhw, p'un a ydynt yma am ddiwrnod, am wythnos neu am oes. Mae hyn yn golygu bod pobl wrth wraidd ein cynigion.



Dull gweithredu.

Er mwyn cyflawni'r uchelgais hwn i blesio ymwelwyr a phobl leol yn yr un modd, mae'r cynllun hwn yn nodi mai **gwella ansawdd y profiad i ymwelwyr ledled Cymru mewn ffordd sydd hefyd o fudd i'n pobl leol**, yw ein cenhadaeth strategol ganolog.

Mae hyn wedi'i dargedu at y farchnad; gwyddom fod ymwelwyr y dyfodol yn chwilio am brofiadau gwreiddiol, unigryw, a bod yr economi profiadau yn tyfu, wrth i ddefnyddwyr geisio sicrhau gwerth am amser yn ogystal â gwerth am arian. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd yn uniongyrchol â'n huchelgais i sicrhau buddiannau llesiant i bawb drwy dwristiaeth.

Gwelsom drwy ein sgwrs fod cytundeb cyffredinol yn y diwydiant mewn perthynas â hyn. Felly, dros oes y cynllun hwn, byddwn yn ceisio ysbrydoli, datblygu a hyrwyddo profiadau nodedig o ansawdd uchel sy'n cyfoethogi, sy'n dda i ymwelwyr a phobl leol ledled Cymru.

Mae hyn yn cynnwys profiadau, llety, atyniadau a digwyddiadau eiconig unigol, yn ogystal â phrofiadau ar draws cyrchfannau – lle mae pob agwedd ar y daith i gwsmeriaid yn cyfuno er mwyn creu un profiad gwych i bawb.

Mae rhagor o fanylion am natur a strwythur y profiadau rydym am ganolbwyntio ar eu datblygu a'u cyflwyno wedi'u cynnwys isod.

Wrth i fwy a mwy o ymwelwyr geisio profiadau gwreiddiol ac ystyrlon ar wyliau neu ymweliad, bydd yr hyn sy'n ein gwneud ni'n wahanol yn ein diffinio ni: y lleoedd arbennig sy'n unigryw i Gymru, tarddiad ein bwyd a'n diod, ein diwylliannau a'n digwyddiadau lleol cyfoethog, ein treftadaeth ddramatig, a'n hawydd am antur. Mae'r elfennau hyn yn annibynnol ac yn rhyngweithio er mwyn creu profiad sy'n unigryw i Gymru, ac sy'n ein galluogi i sefyll allan mewn marchnad gystadleuol iawn.

Ond er mwyn cystadlu, mae angen i ni sicrhau hefyd bod y ffordd rydym yn dod â'r profiadau hyn yn fyw yn arloesol, yn fodern a'n bod yn achub y blaen ar ein cystadleuwyr – mae'n rhaid i ni ddehongli Cymru mewn ffordd ffres, berthnasol a chyfoes i ni ein hunain, er mwyn cadw ymwelwyr presennol a denu cynulleidfaoedd newydd a chynulleidfaoedd ar gyfer y dyfodol.

Yn gryno, mae hyn yn golygu bod yn gynhenid Gymreig, ag agwedd fyd-eang – a chydbwyso dwy elfen:

Bro – Sef y lleol, cymuned, ymdeimlad o ddiben a naws am le, a

Byd – Sef safonau ac uchelgais o ansawdd rhyngwladol.

Mae rhai o'n profiadau gorau yng Nghymru – gwestai boutique, tafarndai lleol, anturiaethau epic, atyniadau i deuluoedd, safleoedd gwersylla a charafanio o ansawdd – eisoes yn gwneud hyn yn effeithiol. Maent wedi'u gwreiddio yn eu lleoliad, sy'n golygu eu bod yn fwy perthnasol ac yn apelio mwy i'r farchnad.

Bro.

Sef y lleol, cymuned, ymdeimlad o ddiben a naws am le.

Effaith leol:

- Profiadau â naws Gymreig.
- Cymunedau cyfeillgar, croesawgar.
- Arddangos bwyd a diod Cymru.
- Cyrchfannau glân, gwyrdd.
- Ysgogi economïau a chadwyni cyflenwi lleol.
- Hygyrch a chynhwysol, ac yn cynnig gwerth am arian.
- Ar agor drwy gydol y flwyddyn, ledled Cymru.
- Tyfu busnesau cartref.
- Dathlu'r Gymraeg.

Byd.

Sef safonau ac uchelgais o ansawdd rhyngwladol.

Perthnasedd rhyngwladol:

- Brand cyrchfan uchel ei barch.
- Denu busnes rhyngwladol newydd.
- Ysgogi gwerth dros niferoedd.
- Profiadau a digwyddiadau o'r radd flaenaf.
- Cysylltiadau trafnidiaeth gwell — yn cynnwys cysylltiadau rhyngwladol â Maes Awyr Caerdydd.
- Cyrraedd safonau ansawdd rhyngwladol.
- Perthnasol, arloesol a chyfoes.
- Defnyddio data a dealltwriaeth ar gyfer penderfyniadau.
- Ymwybyddiaeth amlieithog a diwylliannol.
- Lleihau'r effaith amgylcheddol.

Arlwy craidd Cymru.

Er ein bod bob amser yn agored i syniadau newydd, byddwn yn canolbwyntio ein gweithgarwch marchnata cyffredinol sy'n adeiladu brand ar nifer fach o feysydd cynnyrch blaenoriaeth a fydd, yn ein barn ni, yn gwneud i'n gwlad, a'i chyrchfannau, sefyll allan ymhlith lleoedd eraill – profiadau y bydd ymwelwyr yn y dyfodol yn chwilio amdanynt.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae Croeso Cymru wedi cymryd dull sy'n dilyn thema i hyrwyddo a datblygu Cymru. Yn seiliedig ar yr adborth cadarnhaol gan y sector, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar dri chonglfaen ein harlwy craidd – tirwedd, diwylliant ac antur – fel sail ar gyfer blaenoriaethu adnoddau datblygu a marchnata.

Byddwn yn parhau i hyrwyddo'r themâu hyn yn ein gwaith buddsoddi a marchnata, ac yn mynd ati i geisio cyfleoedd i ddatblygu profiadau tirwedd/diwylliannol/antur y gellir eu prynu ymlaen llaw sydd wedi'u targedu at y farchnad ar gyfer y dyfodol – gan fynd â'r rhain i gynulleidfaoedd newydd yn ddigidol ac mewn digwyddiadau ag egni a chydweithrediad ffres.

Mae'r tair thema cynnyrch hyn hefyd yn cyd-fynd yn uniongyrchol â'n gweledigaeth i gyflawni a hyrwyddo buddiannau amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol ac iechyd ledled Cymru – rydym yn hyrwyddo ein cryfderau er mwyn eu dathlu a'u cynnal.

Byddwn yn parhau i rannu ymdeimlad cryf o groeso Cymru a sicrhau bod bwyd a diod bob amser yn rhan o'n dull gweithredu craidd. Byddwn hefyd yn buddsoddi yn y rhwydwaith o dair llwybr sy'n ffurfio Ffordd Cymru fel prif fenter, sydd wedi'i chynllunio i weithredu fel cynnyrch cenedlaethol ar gyfer Cymru – y gall pawb ei chefnogi.

Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r sector ar gyfres fach o brofiadau o ddiddordeb arbennig a nodir yn yr adran Blaenoriaethau masnachol isod.

Arlwy craidd Cymru

Tirweddau eithriadol, a ofelir amdanynt

Tirweddau naturiol hygyrch, gwarchodedig – sy'n cynnig profiadau llesiant ystyrlon, safonol a chyfoes.

Cymunedau bywiog a diwylliant creadigol

Arlyw diwylliannol a threftadaeth drefol a gwledig sy'n unigryw ond sy'n hynod greadigol a chyfoes, a gaiff ei greu ar y cyd â phobl leol ac a gaiff ei werthfawrogi gan ymwelwyr.

Anturiaethau a gweithgareddau epic i bawb

Anturiaethau, digwyddiadau a gweithgareddau arloesol o'r radd flaenaf – sy'n rhoi bywyd i'n tirweddau ôl-ddiwydiannol a naturiol ac yn annog pawb i fyw bywyd iach.

Croeso unigryw Gymreig

Byddwn hefyd yn gwneud mwy i ddatblygu a hyrwyddo croeso sy'n unigryw Gymreig – yn seiliedig ar hyrwyddo lleoedd llawn cymeriad i aros ynddynt a phrofiadau bwyd a diod lleol ledled Cymru.

Profiadau cenedlaethol fel Ffordd Cymru



A chyrchfannau diffiniol.

Er bod rhai atyniadau yn gyrchfannau yn eu rhinwedd eu hunain, yn gyffredinol, mae ein llwyddiant yn gwbl ddibynnu ar gyfuno profiadau unigol, ar wahân – atyniadau, safleoedd, digwyddiadau – er mwyn creu cyrchfannau cofiadwy o ansawdd uchel y bydd ymwelwyr yn eu cofio, yn siarad amdanynt ac yn dychwelyd iddynt yn y dyfodol. Lleoedd y mae pobl yn ymweld â nhw gyntaf.

Dros y pum mlynedd nesaf byddwn yn tyfu'r profiad cyrchfannau ledled Cymru ac yn canolbwyntio ar lond llaw o leoedd allweddol, gan ddwyn pob rhan o'r llywodraeth ynghyd o fewn y meysydd hyn er mwyn cydfuddsoddi mewn twristiaeth er budd yr agenda llesiant ehangach, a nodir yn yr adran Blaenoriaethau isod.

Amcanion y brand.

Mae holl ddeunydd marchnata Croeso Cymru yn dod o dan frand Cymru Wales sy'n cael ei ddefnyddio'n gyson bellach i hyrwyddo Cymru yn y DU a thu hwnt fel lle i ymweld ag e ac i fuddsoddi, gweithio ac astudio ynddo.

Â'i bwyslais cryf ar gyfleu Cymru trwy dirwedd, diwylliant ac antur fel lle unigryw i ymwelwyr, daw'r brand yn fyw trwy ymgyrchoedd creadigol a gafaelgar, fel y Flwyddyn Awyr Agored mewn twristiaeth. Mae hunaniaeth lwyddiannus y brand yn drawiadol – ac yn cynnwys logo cyfarwydd y Ddraig, ffont eiconig ac arddull ffotograffig gref.

Ac er bod a wnelo'r brand yn rhannol â'r ffordd rydym am gyflwyno Cymru i'r byd, ei nod hefyd yw ysbrydoli cynnyrch, profiadau a digwyddiadau newydd ar draws y wlad.

Fel y cynllun hwn, hanfod y brand yw'r cysyniad o 'Bro a Byd' – ein bod yn rhagori yng Nghymru pan fydd y lleol yn cwrdd â'r byd-eang mewn ffordd sy'n teimlo'n ddidwyll, yn greadigol ac yn fyw; ac rydym am i'r syniad hwnnw gael ei weld nid yn unig yn yr ymgyrchoedd marchnata, ond ar lawr gwlad hefyd.

Yn sail i'r brand hefyd y mae pum amcan craidd – sy'n gweithredu fel rhestr gyfeirio ar gyfer syniadau, cynnyrch ac ymgyrchoedd newydd. Yn y dyfodol, byddwn yn defnyddio'r amcanion hyn i lywio'n gweithgareddau, yn Croeso Cymru ac ar draws y diwydiant wrth inni geisio sicrhau bod ein gwaith yn:

- **Codi ein statws**
- **Rhyfeddu ac ysbrydoli**
- **Newid canfyddiadau**
- **Gwneud pethau da**
- **Gwbl Gymreig.**

Trwy ein cynllun, rydym am i'r ffordd hon o weithio ymwreiddio yn ein gwaith, nid yn unig mewn cysylltiad â marchnata twristiaeth, ond hefyd wrth inni ddatblygu'n sector yn y dyfodol.

Ein hymwelwyr.

Rydym yn denu tua 11 miliwn o ymwelwyr dros nos i Gymru bob blwyddyn – tua thri ymwelydd i bob person sy'n byw yng Nghymru – ac er y gall fynd yn brysur iawn mewn ardaloedd poblogaidd dros fisoedd prysuraf yr haf, mae cyfle o hyd i dyfu nifer cyffredinol yr ymwelwyr sy'n dod i Gymru drwy'r flwyddyn.

Er mwyn datblygu mewn modd cynaliadwy mae angen i ni fynd i'r afael â thair her allweddol dros y pum mlynedd nesaf:

Tymoroldeb	Gwariant	Dosbarthiad
Mae'r dystiolaeth yn dangos bod rhai ardaloedd o Gymru yn brysur yn ystod y tymor brig ac mae angen i ni wneud mwy er mwyn tyfu twristiaeth yn ystod y cyfnodau llai prysur. Bydd hyn yn llywio ein cynnyrch a'n gwaith yn datblygu lleoedd, yn ogystal â'n marchnata. Bydd gwaith marchnata Croeso Cymru ei hun yn y DU yn canolbwyntio ar ysgogi ymwelwyr newydd i ddod i Gymru yn ystod y cyfnodau llai prysur.	Ein her sylfaenol yw annog ymwelwyr i dreulio mwy o amser a gwario mwy o arian yng Nghymru. Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd yr arlwy twristiaeth, gan sicrhau bod ein cynhyrchion yn fwy gweladwy ac y gellir eu prynu ymlaen llaw, ac yn sicrhau bod digon o brofiadau ar gael yn ein dinasoedd a'n pentrefi i ymwelwyr wario arian arnynt drwy gydol y flwyddyn. Byddwn yn gwneud hyn ynghyd â sicrhau nad yw ein diwydiant yn elitaidd nac yn anghynhwysol.	Er y bydd angen i ni barhau i hyrwyddo'r rhannau mwyaf eiconig o Gymru i gynulleidfaoedd newydd – byddwn yn gwneud mwy i annog ymwelwyr o'r DU ac o Gymru yn benodol, i ganfod ardaloedd newydd o Gymru sy'n barod i ddenu twristiaeth. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol ar ffyrdd clyfar o aildargedu ymwelwyr sy'n ymweld dro ar ôl tro â chyrchfannau sefydledig â gwybodaeth am rannau newydd, tebyg o Gymru iddynt ymweld â nhw nesaf.



Felly, rydym yn canolbwyntio mwy ar yr her o dwf cynaliadwy – ansawdd dros niferoedd; gwerth dros swmp. Yn y dyfodol, byddwn yn canolbwyntio ar y marchnadoedd targed canlynol:

Marchnadoedd gwyliau gartref newydd.

Mae unrhyw dwf mewn gwyliau gartref yn cynnig cyfle sylweddol i Gymru ddenu ymwelwyr newydd, gwerth uchel o bob cwr o Brydain i ddod i Gymru er mwyn aros yn hwy a gwario mwy o arian yn ein cymunedau. Mae hon yn farchnad ffyniannus iawn ac mae'r gystadleuaeth ar gyfer twristiaid o'r DU yn fyd-eang felly mae'n rhaid i'n harlwy fod yn rhyngwladol o ran ei uchelgais a'i ansawdd.

O ystyried natur ein harlwy a'r farchnad ar garreg ein drws, mae cyfleoedd arwyddocaol, ac angen i Gymru apelio i farchnadoedd ar hyd pob sbectrwm oedran. Byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant er mwyn datblygu arlwy sy'n gwasanaethu gofynion newidiol cenedlaethau'r dyfodol sydd ag amrywiaeth o ddiddordebau angerddol, sy'n rhoi gwerth am amser o flaen gwerth am arian ac mewn profiadau o ansawdd.

Ymwelwyr rhyngwladol sy'n newydd i Gymru.

Mae adeiladu proffil rhyngwladol Cymru yn broses hir a pharhaus; mae'n ganolog i'n gwaith er mwyn adeiladu brand integredig i Gymru a *Strategaeth Rhyngwladol* Llywodraeth Cymru. Gwyddom fod heriau yn gysylltiedig â denu twristiaeth ryngwladol i Gymru; nid yw Cymru'n denu cyfran ddigon mawr o ymwelwyr rhyngwladol i'r DU. Mae'n hanfodol ein bod yn mynd i'r afael â hyn – mewn ffordd sy'n sensitif i faterion amgylcheddol – er mwyn sicrhau ein dyfodol economaidd.

Mae lefel ein hadnoddau yn pennu ein gallu i dyfu galw a gwerth ymwelwyr rhyngwladol, er ein bod yn gwneud y defnydd gorau o gyfleoedd marchnata digidol a chyfryngau cymdeithasol mwy effeithlon. Os bydd adnoddau yn parhau ar y lefelau presennol byddwn yn parhau i ganolbwyntio ein prosesau datblygu a marchnata ar farchnadoedd rhyngwladol twf craidd – lwerddon, yr Almaen a gwledydd Ewropeaidd gerllaw ac UDA, gan ddod â'r diwydiant gyda ni. Byddwn hefyd yn parhau i ddefnyddio cyfleoedd tactegol wrth iddynt godi – digwyddiadau pwysig, llwybrau trafnidiaeth newydd – er mwyn mynd â Chymru y tu hwnt i'r marchnadoedd hyn lle y bo'n briodol. Mewn perthynas â hyn, nid yw ein categorïau marchnad wedi newid ers y strategaeth flaenorol, *Partneriaeth ar gyfer Twf*. Fodd bynnag, mae angen i ni wneud mwy er mwyn targedu ymwelwyr rhyngwladol sy'n ystyried Prydain, gan ddefnyddio partneriaethau digidol er mwyn sicrhau bod Cymru yn ennill y blaen ar y rhai sydd eisoes yn chwilio am wyliau yn y DU. Byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda VisitBritain er mwyn hyrwyddo safle Cymru ar y llwyfan rhyngwladol.

Pobl Cymru.

Mae pobl Cymru yn bwysig i'n economi twristiaeth hefyd, ac mae hyrwyddo twristiaeth yng Nghymru yn creu hyder, cydlyniant a chyfleoedd ar lawr gwlad. Pobl Cymru yw'r lladmeryddion gorau ar gyfer ein gwlad. Yn y dyfodol, byddwn yn gwneud mwy er mwyn annog pobl Cymru i ddeall a chanfod rhannau newydd o'n gwlad, yn enwedig yn ystod y tymhorau bob pen i'r prif dymor.



Cysylltiadau gydol oes.
Mae cydberthynas unigolyn â lle yn esblygu gydag amser – a cheir cyfle i Gymru wneud mwy o waith ymchwil er mwyn deall ei marchnad 'cyfan' o westeion, myfyrwyr, ymwelwyr busnes, pobl ar eu gwyliau, ffrindiau a pherthnasau mewn ffordd fwy cyfannol, er mwyn meithrin cydberthnasau gydol oes â'n defnyddwyr, gan sefydlu cymuned o ladmeryddion ar gyfer Cymru, yn ogystal ag ymwelwyr brwdfrydig sy'n dychwelyd.

Mathau o ymwelwyr.

Yn ogystal ag ymwelwyr hamdden cyffredinol, byddwn yn targedu:

Teithwyr busnes.

Mae teithwyr busnes yn farchnad gwerth uchel sy'n dychwelyd ar gyfer ymweliadau yn y dyfodol. Rydym yn buddsoddi mewn cyfleusterau confensiwn a digwyddiadau busnes o'r radd flaenaf fel sector (gweler isod). Fodd bynnag, mae angen i ni hefyd adlewyrchu anghenion teithwyr busnes mewn penderfyniadau buddsoddi, ymgyrchoedd partneriaeth a marchnata cynnwys, yn enwedig mewn rhai cyrchfannau fel Caerdydd a Llandudno, lle mae hyn yn cynnig posibilrwydd sylweddol o dwf.

Ymwelwyr diddordeb arbennig.

Er bod Cymru yn apelio i ymwelwyr sy'n chwilio am brofiadau gwyliau traddodiadol, mae gan ddiddordebau arbennig fel golff neu dwristiaeth bwyd y potensial i ysgogi twristiaeth gwerth uchel, yn enwedig y tu allan i'r tymor. Mae defnyddwyr yn chwilio am bwyntiau angerdd ar-lein; a gall canolbwyntio ar gynhyrchion penodol helpu i ddiffinio delwedd gwlad neu gyrchfan fel lle da am bethau penodol. Byddwn yn cefnogi profiadau diddordeb arbennig ar gyfer Cymru sy'n ysgogi chwiliadau, sydd â'r potensial gorau ar gyfer twf economaidd, sy'n cyd-fynd â'r brand ac sydd hefyd yn gwella llesiant ein cymunedau lleol ein hunain.

Gweithredwyr teithio.

Mae gweithio gyda'r fasnach teithio a'r gweithredwyr teithio er mwyn cyrraedd yr holl farchnadoedd hyn yn parhau i fod yn greiddiol i'n dull gweithredu yn y dyfodol – ceir rhagor o fanylion yn adran Blaenoriaethau masnachol y ddogfen hon.



Yr her ryngwladol.

Mae twristiaeth yn greiddiol i *Strategaeth Ryngwladol* newydd Llywodraeth Cymru. Credwn fod denu mwy o ymwelwyr gwerth uchel i Gymru – mewn ffordd sy'n sensitif i faterion amgylcheddol – yn hanfodol i'n sector ac i ddyfodol byrdymor a thymor hwy economi ehangach Cymru.

Mae rhyngwladoli ein harlwy twristiaeth a'n portffolio digwyddiadau yn ganolog i'r cynllun hwn, ac mae ei angen hyd yn oed i apelio i'r farchnad hynod gystadleuol yn y DU. Ond ein huchelgais fyddai creu lefel newydd o alw ar gyfer Cymru yn rhyngwladol i gefnogi hyn, gan godi lefelau ymweliadau rhyngwladol y tu hwnt i filiwn o ymwelwyr bob blwyddyn.

Blaenoriaethau Croeso Cymru.

Dros y pum mlynedd nesaf, byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant er mwyn adeiladu ar y sylfeini cryf sy'n bodoli, gyda phwyslais cynyddol ar dwristiaeth gynaliadwy sy'n sicrhau canlyniadau gwell nawr ynghyd ag adeiladu ar gyfer dyfodol gwell. Byddwn yn canolbwyntio ar bedair blaenoriaeth:

Cynnyrch a lleoedd gwyh



Profiadau o ansawdd i ymwelwyr



Brand arloesol i Gymru



Sector cysylltiedig a bywiog



Cynnyrch a lleoedd gwych.

Camau Gweithredu

Prosiectau dan arweiniad Croeso Cymru

Buddsoddiad cyfalaf dan arweiniad diwydiant

Creu lleoedd mewn ffordd integredig

Digwyddiadau rhyngwladol a chartref

Er mwyn cynnal ein safle mewn marchnad gystadleuol, byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn cynnyrch a digwyddiadau twristiaeth sy'n sicrhau buddiannau lleol i gymunedau yng Nghymru (Bro), ac sydd hefyd yn rhoi Cymru ar lwyfan y byd (Byd).

Yn unol â'r *Cynllun Gweithredu ar yr Economi* a'n huchelgeisiau a'n nodau ein hunain, byddwn yn mabwysiadu dull gweithredu 'Economi a mwy' at fuddsoddi – gan sicrhau bod cyllid yn cyflawni yn erbyn ein huchelgeisiau economaidd craidd, ond ei fod hefyd yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n sicrhau buddiannau cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac iechyd ehangach.

Byddwn yn ceisio rhagor o gyfleoedd i arwain ar ddatblygu prosiectau Croeso Cymru, lle rydym mewn sefyllfa unigryw i gyflawni, a lle mae'r farchnad yng Nghymru yn methu.

Byddwn hefyd yn parhau i gefnogi mentrau a arweinir gan y sector preifat, gan sicrhau bod pob busnes sy'n cael cymorth ariannol cyfalaf yn bodloni gofynion Contract Economaidd Llywodraeth Cymru, gan ddangos ymrwymiad at dwf, gwaith teg, iechyd a sgiliau cyflogaion, a lleihau eu hól-troed carbon; gan adlewyrchu'r math o ymddygiadau busnes sydd eu hangen arnom er mwyn sicrhau diwydiant twristiaeth cynaliadwy yng Nghymru. Byddwn hefyd am i'r sawl rydym yn eu hariannu ein cefnogi yn ein huchelgeisiau ehangach, er enghraifft drwy fynd i sioeau masnach ryngwladol neu ddatblygu cynnyrch y gellir ei fwcio ymlaen llaw.

Ond ni allwn wneud hynny ein hunain. Mae cynigion buddsoddi twristiaeth strategol ar raddfa fawr – o ddigwyddiadau o'r radd flaenaf i brosiectau seilwaith twristiaeth mawr – yn cynnwys sawl partner ar draws y sector cyhoeddus a phreifat. Byddwn yn gweithio ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru a thu hwnt er mwyn gwneud y mwyaf o'r gwaith a wnawn, ac yn mynd ati i chwilio am fuddsoddiad preifat sylweddol.

Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU er mwyn sicrhau bod twristiaeth yng Nghymru yn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl, er enghraifft, cyfleoedd Bargaen y Sector yn y DU neu gyllid Ffyniant Cyffredin yn y DU, er mwyn adeiladu ar yr effaith gadarnhaol a gafodd cyllid blaenorol yr Undeb Ewropeaidd ar y sector twristiaeth yng Nghymru.

Prosiectau dan arweiniad Croeso Cymru.

Un o'r agweddau newydd yn y cynllun hwn yw y byddwn yn arwain ar nifer bach o fuddsoddiadau uniongyrchol o'r sector cyhoeddus mewn prosiectau neu ddigwyddiadau sydd â'r potensial i hyrwyddo Cymru'n rhyngwladol, ac sy'n dwyn y gorau o Gymru ynghyd mewn arlwy unigol ar gyfer ymwelwyr.

Y prosiect cyntaf i gael ei ystyried fydd prosiect i ddatblygu llety gan ddilyn yn fras y model y 'Paradores' yn Sbaen. Byddwn yn dechrau'n fach, gan fuddsoddi mewn un prosiect o bosibl dros oes y cynllun hwn. Bydd y prosiect yn arddangos y gorau o letygarwch, llety a bwyd a diod Cymru. Rydym yn ymwybodol na ddylem dresbasu ar diriogaeth y sector preifat, felly byddwn yn gweithio gyda'r sector er mwyn nodi a datblygu prosiect mewn ardal sy'n ceisio adfywiad, gan ystyried unrhyw arlwy presennol sy'n cystadlu a'r budd o fuddsoddi. Caiff rhagor o brosiectau eu cwmpasu sy'n cefnogi ein nodau economaidd a'n nodau llesiant ehangach.

Rydym hefyd yn cydnabod y cyfle i drawsnewid ac arddangos arlwy ein sector diwylliant a threftadaeth o'r radd flaenaf, gan ailadrodd yr hyn gyflawnwyd yn y sector antur dros y degawd diwethaf a mwy. Mae gan y sector cyhoeddus lawer o ddylanwad yn y maes hwn, a byddwn yn cydweithio'n agos â Cadw ac Amgueddfa Cymru er mwyn datblygu profiadau newydd i ymwelwyr rhyngwladol o ansawdd uchel. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod buddsoddiad mewn Amgueddfa Celf Cyfoes newydd wasgaredig yn adlewyrchu ein gweledigaeth o brofiad sydd wedi'i wreiddio'n bendant yng nghymunedau Cymru – ond sydd hefyd â'r potensial i gael ei chydabod yn fyd-eang.



Buddsoddiad cyfalaf dan arweiniad diwydiant.

Byddwn yn parhau i gefnogi arloeswyr yn y diwydiant sy'n cyflwyno cynhyrchion o ansawdd uchel, sy'n gwella enw da cwmnïau.

Ein prif fwllch o ran cynhyrchion yw llety o ansawdd uchel mewn sawl rhan o Gymru, felly yn unol â'n symudiad i werth dros niferoedd, byddwn yn gweithio gyda busnesau sy'n bodoli eisoes er mwyn gwella eu lefelau deiliadaeth a'u harenillion. Rydym yn chwilio am fwy nag ystafell wely sylfaenol – dylai lle i aros fod yn brofiad cofiadwy a nodedig hefyd.

Byddwn hefyd yn parhau i ganolbwyntio ar gynhyrchion drwy gydol y flwyddyn sy'n helpu i greu'r amodau ar gyfer denu a chadw gweithlu medrus.

Yn ogystal â disgwyl i brosiectau gyflawni buddiannau economaidd clir, byddwn hefyd yn disgwyl iddynt gyfrannu at gynaliadwyedd a llesiant drwy gynnwys effeithlonrwydd ynni a dyluniad hygrych o'r cychwyn er enghraifft.

Bydd Cronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth Cymru gwerth £50 miliwn a lansiwyd yn ddiweddar – a ddarparwyd mewn partneriaeth â Banc Datblygu Cymru – yn helpu i ariannu buddsoddiad cyfalaf mewn prosiectau twristiaeth sy'n tyfu'r sector ac sy'n cael effaith gadarnhaol ar economi Cymru. Mae gennym geisiadau ar y gweill a byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant er mwyn tyfu hyn ymhellach.

Byddwn hefyd yn cymryd dull mwy strategol a rhyngwladol, gan geisio denu arian a buddsoddiad ychwanegol er mwyn cefnogi ein sector, sy'n golygu bod Cymru yn lleoliad o ansawdd i dyfu brand neu fusnes drwy'r sianeli priodol.

Ni fydd pob prosiect eiconig yn fawr, ac nid yw ein cefnogaeth yn gyfyngedig i lety ac atyniadau wedi'u gwasanaethu; rydym yn chwilio am ansawdd ar draws pob categori pris a sector. Mae hyn yn cynnwys y sector carafanio a gwersylla – maes sydd ag apêl boblogaidd sy'n arallgyfeirio'n gyflym mewn ymateb i newidiadau yn y farchnad, ac mae'n graidd i safle Cymru yn y farchnad, yn enwedig yn y DU.

Byddwn yn ystyried cyd-destun pob prosiect, gan gydnabod bod gan rai cynlluniau y potensial i weithredu fel catalydd ar gyfer newid o fewn cymuned, gan ddechrau taith sy'n arwain at newid graddol ym mhroffil a pherfformiad lle.

Byddwn hefyd yn parhau i roi cymorth i microfusnesau a busnesau bach yng Nghymru drwy ein Cronfa Microfusnesau a Busnesau Bach o dan ein rhaglen Cronfa Datblygu Gwledig.

Yn olaf, mae'n hanfodol bod ein prif gynlluniau cyfalaf yn cyrraedd safonau cynllunio rhyngwladol, a byddwn yn ystyried y ffordd y gallwn roi mwy o arweiniad i ddatblygwyr a buddsoddwyr er mwyn sicrhau bod prosiectau yn cyd-fynd â'r brand a'u bod yn safonol yn y dyfodol.

Creu lleoedd mewn ffordd integredig.

Gall twristiaeth helpu i ddod â lleoedd yn fyw, gan gynnal yr atyniadau, y siopau, y bwytai a'r marchnadoedd y mae pob un ohonom yn eu defnyddio drwy'r flwyddyn.

Rhaid i'r broses o ddatblygu cynhyrchion eiconig gyd-fynd yn uniongyrchol â dull gweithredu pwrpasol sy'n creu lleoedd, er mwyn creu cyrchfannau sy'n adlewyrchu cymeriad nodedig lleoedd ac yn darparu'r atyniadau, y cyfleusterau a'r seilwaith sylfaenol y mae ymwelwyr am eu cael.

O ystyried bod ymwelwyr yn dal i dueddu i ymweld â chyrchfannau yn gyntaf, byddwn yn cyflwyno dull strategol o ddatblygu lleoedd yng Nghymru, gan sianelu ymdrechion y cyhoedd a chyllid tuag at nifer fach o gyrchfannau. Byddwn yn gweithio gyda'n cydweithwyr rhanbarthol a'r fframweithiau rhanbarthol a ddaw i'r amlwg er mwyn nodi un gyrchfan o bosibl ym mhob un o'r pedwar rhanbarth twristiaeth sy'n dangos ein cynhyrchion gorau a mwyaf eiconig ar gyfer y dyfodol; sy'n dangos ymrwymiad cyhoeddus/preifat clir at dwf yn y dyfodol; ac sydd â chefnogaeth y gymuned o bobl leol.

Bydd Croeso Cymru yn arwain y gwaith o ddatblygu rhaglenni integredig yn y cyrchfannau hyn, lle y mae twristiaeth yn sector economaidd allweddol neu'n brif sector. Byddwn yn parhau i weithio ar draws Llywodraeth Cymru a gyda phartneriaid allanol er mwyn datblygu Cynlluniau Creu Lleoedd a Phrofiad Ymwelwyr sy'n wirioneddol gyfunol, gan sicrhau bod buddsoddiad a buddiant amrywiaeth eang o ymyriadau yn cael eu cyflawni ym mhob cymuned mewn ffordd benodol a chyd-gysylltiedig, o drafnidiaeth, treftadaeth ac adfywio i iechyd y cyhoedd.

Wrth gwrs, byddwn yn gwneud hyn gan barhau, ar yr un pryd, i gefnogi gwell prosesau i reoli cyrchfannau ledled Cymru drwy ddull gweithredu Partneriaeth Rheoli Cyrchfannau wedi'i adfywio, gan roi mwy o bwyslais ar weithio cyhoeddus/preifat gwirioneddol ac ar waith traws-sefydliadol i gael y nodweddion sylfaenol yn iawn. Byddwn yn cynnal Cynhadledd Rheoli Cyrchfannau er mwyn cynllunio hyn yn ymarferol.

O safbwynt marchnata, byddwn yn archwilio ffyrdd cyfoes o hyrwyddo rhanbarthau a chyrchfannau Cymru – mewn ffordd sy'n targedu'r farchnad – i gynulleidfaoedd newydd. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn datblygu cynigion cryfach ar gyfer y lleoedd a'r straeon gwahanol sy'n atgyfnerthu hunaniaeth Cymru o safbwynt darpar ymwelydd; gan gaffael y gwaith hwn oddi wrth eraill yn unol â briffiau clir.



Digwyddiadau rhyngwladol a chartref.

Mae digwyddiadau yn chwarae rhan hanfodol yn denu pobl i Gymru: gallant helpu i greu ardaloedd lleol bywiog a chodi ein proffil byd-eang.

Rydym wedi cael cryn llwyddiant yn datblygu ac ehangu digwyddiadau cynhenid ac yn denu digwyddiadau rhyngwladol ac yn sefydlu Cymru fel prif gyfranogwr yn y diwydiant digwyddiadau byd-eang.

Yn ddiweddar, buom yn gweithio gyda'n rhan-ddeiliaid er mwyn adolygu ein meini prawf a'n dull gweithredu ar gyfer digwyddiadau. Er eu bod yn hapus â'n dull gweithredu cyffredinol, roeddent o'r farn y gallem gymryd mwy o ystyriaeth o effeithiau cymdeithasol a buddiannau ein digwyddiadau gwyb.

Mae ein llwyddiant yn denu digwyddiadau mawr hefyd yn golygu bod llai o ymwybyddiaeth o'r cymorth arwyddocaol a roddwn bob blwyddyn yn nodi, cefnogi a thyfu digwyddiadau Cymreig lleol.

Er mwyn mynd i'r afael â hyn, byddwn yn ailenwi ein Huned Digwyddiadau Mawr yn 'Digwyddiadau Cymru' ac yn parhau i adolygu ein dull gweithredu gan gynnwys ein hamcanion o ran hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth er enghraifft.

Bydd 'Digwyddiadau Cymru' yn parhau i nodi a cheisio digwyddiadau diwylliannol, chwaraeon a busnes rhyngwladol sy'n cyd-fynd yn llawn â'n gwerthoedd a'n cyfeiriad fel cenedl flaengar – ac rydym hefyd yn dwysáu ein hymdrechion i gefnogi'r gwaith o ddatblygu digwyddiadau cynhenid i safonau rhyngwladol er mwyn sicrhau diwydiant digwyddiadau cryf a chynaliadwy.

Byddwn yn archwilio'r posibilrwydd o gynnal gŵyl a fydd yn dwyn ynghyd y gorau o greadigrwydd a diwylliant Cymru: gŵyl o wyliau. Caiff y cysyniad hwn ei ymhelaethu'n llawn yn 2020.

Mae hyn hefyd yn gyfle i dyfu ein marchnad digwyddiadau busnes werthfawr, ac felly bydd 'Digwyddiadau Cymru' hefyd yn ymgorffori digwyddiadau busnes. Mae ymwelwyr busnes dros nos sy'n ymweld â Chymru yn gwario £213 miliwn ond dim ond cyfran gymharol fach o ddiwydiant digwyddiadau busnes y DU yw hyn sydd werth £8.9 biliwn y flwyddyn. Mae agor ICC Cymru – Canolfan Confensiynau Rhyngwladol gyntaf Cymru – a'n buddsoddiad yn Venue Cymru, yn gatalydd i Gymru chwarae rôl fwy yn y farchnad ffyniannus hon. Bydd 'Digwyddiadau Cymru' yn cyflwyno Cymru fel cyrchfan ar gyfer cyfarfodydd, mentrau, cynadleddau a digwyddiadau busnes, gan dargedu cymdeithasau, corfforaethau, asiantaethau a chynllunwyr cymhellion a phrynwyr o'r DU a thu hwnt. Byddwn yn manteisio ar ein datblygiadau seilwaith presennol a newydd, yn ogystal â phrofiadau unigryw i ymwelwyr yng Nghymru, er mwyn cefnogi meysydd arweiniol fel y sectorau Technoleg, Gwyddorau Bywyd a Chreadigol, yn ogystal â sectorau Addysg Uwch ac Addysg Bellach.

Bydd cynhadledd 'Digwyddiadau Cymru' yn 2020 hefyd yn gyfle i ymgysylltu ymhellach â'r sector, er mwyn helpu i lywio'r dyfodol.



Profiadau o ansawdd i ymwelwyr.

Camau Gweithredu

Y pethau pwysig

Lletygarwch gwyh drwy'r cynllun graddio

Twristiaeth bwyd

Pobl fedrus

Timau cynnyrch

Nid yw cynhyrchion unigol yn ddigon; dylai pob ymwelydd â Chymru hefyd gael profiad cadarnhaol, cofiadwy ym mhob atyniad a thrwy gydol eu harhosiad.

Mae ymwelwyr yn disgwyl cael llawer o'n sector – llety o safon uchel, cyfleusterau hygrych a gwasanaeth cwsmeriaid da.

Bydd ein ffocws ar gael y nodweddion sylfaenol yn gywir, ar ansawdd ac ar sgiliau, yn sicrhau bod Cymru yn y sefyllfa orau i gynnig croeso o ansawdd uchel yn y dyfodol.

Cronfeydd refeniw i bartneriaid.

Dros y pum mlynedd diwethaf, rydym wedi cyflwyno mwy na £7 miliwn i brosiectau er mwyn datblygu a hyrwyddo cyrchfannau a phrofiadau ledled Cymru drwy Gronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol a Chronfa Arloesedd Cynhyrchion Twristiaeth.

Er bod y prosiectau hyn wedi cael effaith, credwn fod angen dull gweithredu gwahanol bellach. Yn y dyfodol, yn hytrach na gwahodd ceisiadau, byddwn yn mynd ati i nodi'r prosiectau a'r gweithgarwch sy'n ofynnol er mwyn cyflawni ein huchelgeisiau a chaffael y prosiectau hyn yn uniongyrchol.

Y pethau pwysig.

Yn ein sgwrs â'r diwydiant, cawsom wybod fod angen i ni barhau i fuddsoddi yn y seilwaith twristiaeth sylfaenol ledled Cymru, ac mewn profiadau o ansawdd uchel i ymwelwyr. Rydym ni hefyd yn credu hyn ac felly byddwn yn adeiladu ar y prosiectau rydym wedi'u cefnogi drwy'r Cynllun Buddsoddi mewn Amwynderau Twristiaeth drwy lansio cylch newydd sylweddol o gyllid. Mae Y Pethau Pwysig yn gronfa newydd ledled Cymru fydd yn cefnogi'r sector cyhoeddus, y trydydd sector a sefydliadau di-elw i ddarparu gwelliannau bychain sylfaenol i seilwaith twristiaeth, a sicrhau bod pob ymwelydd â Chymru yn cael profiad positif a chofiadwy drwy gydol eu arhosiad.

Bydd Y Pethau Pwysig yn canolbwyntio ar y seilwaith sydd ei angen i sicrhau bod pawb yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu – o leoedd newid cwbl hygyrch i welliannau mynediad ehangach. Byddwn hefyd yn ystyried syniadau pellach gan weithio gyda phartneriaid lleol i adeiladu ar hunaniaeth a chymeriad unigryw trefi marchnad a phentrefi arfordirol. Byddwn yn ystyried cydweithredu'n agosach â phartneriaid er mwyn sicrhau bod profiadau gwych fel Ffordd Cymru, Llwybr Arfordir Cymru, Llwybr Clawdd Offa a'n llwybrau cenedlaethol eraill yn cael eu cynnal a'u cadw, eu bod yn hygyrch a'u bod yn chwarae rôl graidd yn ein harlwy antur ehangach. Byddwn hefyd yn ystyried ffyrdd gwell o gyfeirio at atyniadau yng Nghymru, naill ai drwy dechnoleg ddigidol neu ddefnydd mwy strategol o arwyddion.



Lletygarwch gwyech drwy'r cynllun graddio.

Mae'r twf mewn systemau trefnu gwyliau ar-lein yn golygu bod ymwelwyr yn llai dibynnol ar gynlluniau graddio traddodiadol, a cheir safbwyntiau gwrthgyferbyniol o'r sector ar gadw'r cynllun.

Fodd bynnag, credwn fod ein cynllun graddio yn rhoi sicrwydd i ymwelwyr y byddant yn canfod y gwasanaethau a'r cyfleusterau o ansawdd y maent yn ei ddisgwyl, ac mae hefyd yn rhoi man cyffwrdd ar lawr gwlad i ni ddeall safbwyntiau a phryderon y sector, a hyrwyddo mentrau allweddol (er enghraifft o ran hygyrchedd neu gynaliadwyedd amgylcheddol). Yn y cyd-destun hwnnw, mae ein cynghorwyr graddio yn gweithio gyda busnesau ledled Cymru, gan eu helpu i dyfu drwy eu cyfeirio at wasanaethau fel Busnes Cymru, cymorth band eang Llywodraeth Cymru a chyfleoedd buddsoddi.

Mae'r cynllun hefyd yn llywio ein penderfyniadau buddsoddi, er enghraifft, drwy roi meincnod ar gyfer mesur newidiadau mewn ansawdd o 3* i 4*, ac mae'n ein galluogi i roi sicrwydd i drefnwyr digwyddiadau sy'n chwilio am ystafelloedd cyn penderfynu dod â digwyddiad i Gymru, y gellir bodloni eu disgwyliadau o ran ansawdd.

Yn bwysicaf oll efallai, mae'r sector yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth cymorth busnes a gynigir gan y cynllun – yn enwedig perchenogion newydd.

Er ein bod yn dal i gredu bod graddio yn bwysig, mae'n rhaid i'r gwasanaeth esblygu yng ngoleuni'r safbwyntiau gwrthgyferbyniol a'r gostyngiad yn nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau graddio yng Nghymru a hefyd ledled y DU. Felly, rydym yn archwilio'r posibilrwydd o symud tuag at system raddio am ddim, a fyddai'n rhoi cyngor a chymorth i fusnesau er mwyn eu helpu i dyfu a bod yn fwy proffidiol. Byddai hyn yn cynnal ein gallu i ymgysylltu â busnesau lleol ar lawr gwlad, gan ymgorffori egwyddorion y contract economaidd a pharhau i gynnig system raddio annibynnol a gydnabyddir i'r busnes a'r defnyddiwr.

Byddai'r cynllun hefyd yn rhoi mwy o bwyslais ar letygarwch o ansawdd cynhenid Gymreig, a chyfoethogi'r profiadau naws am le y mae ein busnesau yn eu cynnig, ynghyd â sicrhau eu bod yn cyrraedd safonau ansawdd rhyngwladol.



Twristiaeth bwyd.

Mae bwyd a diod yn rhan ddiffiniol o arlwy twristiaeth Cymru. Drwy gyfuno bwyd tymhorol a chynhwysion lleol o safon, lleoedd diddorol i fwyta ac aros ynddynt, a rhai o gogyddion gorau'r byd, byddwch yn helpu i ddiffinio'r sector lletygarwch yng Nghymru gyda'i enw da haeddiannol am ragoriaeth.

Mae twristiaeth bwyd yn dwyn ynghyd gryfderau cyrchfan leol drwy feithrin y cydberthnasau rhwng y diwydiant lletygarwch/arlwyo a chynhyrchwyr bwyd a diod lleol.

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweithio'n arbennig o agos gyda'r sector bwyd a diod er mwyn gwella mynediad ymwelwyr i fwyd a diod o Gymru, a'u hymwybyddiaeth ohonynt, er mwyn annog busnesau lletygarwch yng Nghymru i gyrchu bwyd a diod mwy lleol, a chynyddu'r bwyd a diod Cymreig a welir ar fwydlenni ac mewn cynigion manwerthu. Rydym hefyd wedi tynnu sylw at bwysigrwydd sgiliau o ran gwybodaeth am fwyd a diod lleol, y gwaith o'i gyrchu a'i baratoi, a chreu cydberthynas lawer cryfach rhwng y brand marchnata twristiaeth ar gyfer Cymru a'r brand a ddefnyddir i hyrwyddo bwyd a diod o Gymru yn rhyngwladol.

Byddwn yn parhau i gydweithio ag arweinwyr bwyd a diod, Partneriaethau Rheoli Cyrcfannau a chlystyrau diwydiant bwyd er mwyn helpu i wella'r arlwy twristiaeth bwyd yng Nghymru, ac yn lledaenu'r gair fel y gall ymwelwyr ganfod ein trysorau bwyd lleol.

Byddwn hefyd yn parhau i annog busnesau twristiaeth a lletygarwch Cymreig, yn cynnwys atyniadau ymwelwyr, i ddefnyddio mwy o fwyd a diod Cymreig ar fwydlenni ac i adrodd hanes y bwyd i ymwelwyr.

Ar ôl lansio'r cynllun hwn, byddwn yn datblygu Cynllun Gweithredu Twristiaeth Bwyd newydd ar y cyd i gyd-fynd â'r *Cynllun Strategol Bwyd a Diod* newydd, er mwyn sicrhau bod y sectorau bwyd a thwristiaeth yn parhau i gydweithio'n agos.



Pobl fedrus.

Mae'r sectorau Twristiaeth a Lletygarwch yn hanfodol i'r economïau lleol ledled Cymru, gan gyflogi pobl ledled y wlad, yn cynnwys llawer o bobl ifanc. Eto, er gwaethaf y lluo o gyfleoedd, rydym yn cael gwybod yn rheolaidd fod prinder sgiliau treiddiol mewn meysydd allweddol fel cogyddion. Er y gall hyfforddiant fod yn un o'r materion y tu ôl i hyn, mae sawl ffactor cymhleth arall, fel natur dymhorol sawl busnes, neu yn wir y ffordd y mae pobl ifanc yn ystyried twristiaeth fel gyrfa yn y dyfodol.

Nid yw'n hawdd datrys yr her sgiliau. Mae llawer o fusnesau wedi cymryd yr awenau, gan ganfod ffyrdd newydd o greu a chadw staff medrus, ond mae hyn yn cynnwys cydweithio mewn partneriaeth â darparwyr hyfforddiant ac ymrwymiad gan fusnesau.

Dim ond drwy gydweithio y gellir cyflawni'r heriau hyn, sy'n gyffredin ledled y DU, felly byddwn yn cymryd rôl fwy amlwg, gan barhau i weithio gyda'r diwydiant i sefydlu Partneriaeth Sgiliau Twristiaeth ffurfiol – wedi'i arwain gan y diwydiant – erbyn gwanwyn 2020, er mwyn dwyn ynghyd y sector, Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, Addysg Bellach, Addysg Uwch ac eraill.

Bydd y bartneriaeth yn cydgyssylltu camau gweithredu ar sgiliau ac yn mynd i'r afael â materion hanfodol fel canfyddiadau o yrfaoedd yn y diwydiant twristiaeth a lletygarwch, prinder sgiliau penodol a'r angen i sicrhau bod ysgolion a sefydliadau Addysg Uwch yn ymwybodol o'r cyfleoedd y gall y sector eu cynnig. Bydd yn nodi arfer gorau a'r dulliau sydd ar gael i'r sector cyhoeddus a phreifat y gellir eu defnyddio i ddatblygu'r agenda sgiliau.

Byddwn hefyd yn mynd i'r afael â ffactorau sy'n cyfrannu at brinder sgiliau – fel tymoroldeb – drwy ein gwaith marchnata a buddsoddi, ac yn archwilio ffyrdd creadigol o godi statws y sector i genedlaethau o weithwyr ac entrepreneuriaid yn y dyfodol, er mwyn cadw talent yn ein cymunedau.

Nid gweithio ar wahân yw'r bwriad, ond cydweithio â'r bartneriaeth er mwyn manteisio ar fentrau sy'n bodoli eisoes a mentrau newydd, fel arfer gorau presennol, ymrwymiad y diwydiant ym Margen y Sector yn y DU neu'r ysgol lletygarwch arfaethedig sydd wedi'i chynnwys ym Margen Twf Gogledd Cymru.

Byddwn hefyd yn archwilio cyfleoedd i weithio gyda rhanbarthau a gwledydd o faint tebyg ar gynlluniau cyfnewid ieuencid sy'n cynnig gwaith tymhorol a chyfleoedd teithio fel y gall pobl ifanc 18-25 oed ddatblygu eu sgiliau a mwynhau Cymru am y tro cyntaf.

Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r diwydiant drwy wybodaeth, byddwn yn archwilio cyfleoedd ar gyfer Teithiau Dysgu sy'n canolbwyntio ar gamau gweithredu a arweinir gan y diwydiant, os gellir gwneud achos busnes cryf.



Timau Cynnyrch.

Fel rhan o'n newid i fabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar brofiad, byddwn yn atgyfnerthu ein ffocws ar gynhyrchion, gan greu timau cynnyrch er mwyn cyflwyno cynhyrchion blaenoriaeth yn seiliedig ar ein harlwy craidd. Byddwn yn edrych ar hyn yn fanylach yn nes ymlaen.

Brand arloesol i Gymru.

Camau Gweithredu

Brand gwlad cryfach

Marchnata addasol gyda ffocws ar gyfnodau llai prysur

Un ymgyrch, dwy flwyddyn thematig

Diwydiant digidol yn gyntaf

Canolfan Ragoriaeth Croeso Cymru

Byddwn yn parhau i gyflwyno brand beiddgar ac integredig i Gymru, gan fanteisio ar botensial twristiaeth i weithredu fel hyrwyddwr ar gyfer ein gwlad ar y llwyfan byd-eang, gan gyflwyno Cymru i'r byd fel cyrchfan groesawgar, fywiog.

Bydd ein pwyslais ar hyrwyddo neges 'ansawdd bywyd' ar draws pob sector, gan ddangos bod Cymru yn lle gwych i fod, p'un a ydych yn fyfyrwr, yn fuddsoddwr, yn breswilydd neu'n ymwelydd.

Brand gwlad cryfach.

Dros y tair blynedd nesaf, byddwn yn atgyfnerthu brand Cymru drwy dîm marchnata brand mwy, integredig. Byddwn yn parhau i weithio ar draws sectorau er mwyn hyrwyddo Cymru mewn ffordd mor dynn a chydlynol â phosibl.

Rydym am i'r brand gael ei ddeall a'i ddefnyddio gan fusnesau unigol ym mhob maes a'i ategu gan farchnata digidol a chyfryngau cymdeithasol ardderchog y gall pawb fanteisio arni, ei chefnogi a'i rhannu.

Wrth gwrs, bydd Croeso Cymru yn parhau i gynnal swyddogaeth marchnata gref, gan ddatblygu dull gweithredu newydd sy'n parhau i wneud y gorau o'r cyfrwng digidol a chyflwyno cyfres o brosiectau sy'n gysylltiedig â'r brand fel 'Cnwd Cymru', sef dathliad o'r cynhyrchion, cynnyrch a'r gwasanaethau gorau o Gymru ar draws amrywiaeth eang o sectorau, gan arddangos doniau, sgiliau a chreadigrwydd eithriadol Cymru ac ysbrydoli ein cenhedlaeth nesaf o ddylunwyr a gwneuthurwyr.



Marchnata addasol gyda ffocws ar gyfnodau llai prysur.

Byddwn yn parhau i ddatblygu'r brand twristiaeth diffiniol ar gyfer ein gwlad fel rhan o neges Cymru: gan hyrwyddo safbwynt cadarnhaol, cynhwysol a chroesawgar o'n gwlad yn y DU ac yn rhyngwladol.

O ran tueddiadau marchnata digidol, byddwn yn cymryd dull gweithredu cynyddol addasol – neu hyblyg – at ddarpariaeth, gan roi mwy o bwyslais ar werth dros niferoedd, a denu ymwelwyr newydd o rannau eraill o'r DU, gan weithio er mwyn sicrhau eu bod yn ystyried ac yn dewis Cymru. Bydd ein dull gweithredu rhyngwladol yn canolbwyntio ar ddenu teithwyr sy'n newydd i Gymru – ond sydd eisoes yn gyfarwydd â'r arlwy ehangach o'r DU ac Iwerddon – gan eu hannog i ystyried a dewis ein gwlad.

Yn unol â'r weledigaeth ehangach i gyflawni twristiaeth gynaliadwy i Gymru, gan gynyddu gwariant drwy gydol y flwyddyn a ledled Cymru, byddwn yn canolbwyntio mwy ar gyfnodau llai prysur, ac yn gweithio'n galetach er mwyn dangos rhannau newydd o'r wlad.

Dros fisoedd yr haf, byddwn yn annog pobl yng Nghymru ac ymwelwyr i rannu eu straeon â'r byd ar y cyfryngau cymdeithasol, gan ddefnyddio Cynnwys a Gynhyrchir gan Ddefnyddwyr er mwyn galluogi marchnata rhwng cymheiriaid.

Byddwn yn ategu gweithgarwch sy'n adeiladu brand cenedlaethol gan roi mwy o bwyslais ar ysgogi archebion a gwerthiannau fel y nodir yn yr adran Blaenoriaethau masnachol isod.

Mae ymwelwyr sy'n ymweld dro ar ôl tro hefyd yn hanfodol i berfformiad twristiaeth parhaus Cymru, ac er bod y rhan fwyaf o'n hymdrechion yn canolbwyntio ar ymwelwyr newydd â Chymru, byddwn yn parhau i gynnal cysylltiadau â'n cynulleidfaoedd craidd drwy lwyfannau marchnata cymdeithasol a chronfeydd data, gan feddwl y tu hwnt i gyfleoedd 'twristiaeth' pur, er mwyn datblygu cysylltiadau gydol oes â'r rhai sy'n ymgysylltu â Chymru yn gyffredinol, fel bod myfyrwyr yn dod yn ymwelwyr a bod ymwelwyr yn dod yn fuddsoddwyr.

Mae gan VisitBritain rôl glir i'w chwarae i gynyddu gwariant gan ymwelwyr rhyngwladol yng Nghymru. Byddwn yn gweithio'n agos gyda nhw er mwyn sicrhau y rhagorir ar y targedau presennol ar gyfer Cymru, ynghyd â gweithio gyda Llywodraeth y DU i adolygu a chynyddu targedau yn y dyfodol. Ein nod yw cytuno ar Gynllun Marchnata Partneriaeth Tair Blynedd VisitBritain/Visit Wales erbyn diwedd 2020.

Un ymgyrch, dwy flwyddyn thematig.

Yn seiliedig ar adborth o'r diwydiant, byddwn yn parhau i hyrwyddo Cymru o dan faner themâu diffiniol – ond gan symud i gylch dwy flynedd o 2020.

Ein nod bellach yw dod â mwy o gysondeb i'n marchnata, a rhoi gwell arweinyddiaeth marchnata i'r sector twristiaeth drwy greu ein 'syniad marchnata mawr' ar y cyd yn 2020 ar gyfer y tair i bum mlynedd nesaf, gan weithio gyda phartneriaid yn y diwydiant. Fel #GwladGwlad, bydd hyn yn gweithredu fel y glud creadigol a fydd yn uno ein holl weithgarwch a themâu ynghyd hyd at 2025 – gan roi cysondeb ymgyrch i'n dull gweithredu, yn ogystal ag amrywiaeth.

O dan faner yr ymgyrch hon, byddwn yn datgelu'r ddwy flynedd thema nesaf – ar gyfer 2022 a 2024 – ar ddiwedd 2020 er mwyn rhoi digon o amser i'r diwydiant ddatblygu syniadau am brofiadau ac ymgyrchoedd sy'n gwella cyfleoedd o amgylch pob thema, a chefnogi'r dull gweithredu cenedlaethol. Bydd y themâu yn parhau i chwarae ar gryfderau diffiniol Cymru fel lleoliad ar gyfer profiadau amgylcheddol/tirwedd, diwylliannol ac antur, sy'n ein galluogi i ddychwelyd i negeseuon blaenorol ac atgyfnerthu brand cydlynol i Gymru ar y llwyfan byd-eang yn barhaus. Bydd Curadur Creadigol yn cydlynu rhaglen gweithgareddau pob blwyddyn, er mwyn ychwanegu cymaint o effaith a dychymyg â phosibl i bob thema.



Diwydiant digidol yn gyntaf.

Yn hanfodol byddwn yn parhau i groesawu datblygiadau digidol er mwyn datblygu dull gweithredu 'Beta Cymru' at farchnata'r brand, ac arwain dulliau cyfathrebu twristiaeth Croeso Cymru ei hun. Rydym am i Gymru ddatblygu enw da am gael un o'r timau marchnata cyrchfannau digidol mwyaf creadigol a hyblyg yn Ewrop, a bydd cydweithredu â diwydiant yn hanfodol yn hyn o beth. Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn gweithio'n barhaus ag ymwelwyr a'r diwydiant er mwyn gwella ein llwyfannau digidol ein hunain drwy ymchwil ansoddol, a arweinir gan ddefnyddwyr, yn ogystal â data soled, gan ddefnyddio 'Data Mawr' i sicrhau bod dyheadau, arferion a dewisiadau twristiaid yn cyd-fynd â'r cynhyrchion arfaethedig.

Fel rhan o'r broses o gyflawni'r nod hwnnw, byddwn yn buddsoddi'n helaeth mewn doniau a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol dros y tair i bum mlynedd nesaf, gyda'r nod o sefydlu cymuned ddigidol arloesol i dwristiaeth yng Nghymru; lle i bobl leol ac ymwelwyr rannu syniadau, ysbrydoliaeth ac awgrymiadau, ac i ddiwydiant ymgysylltu'n uniongyrchol â chynulleidfaoedd ledled y byd, gan droi ein prif ddylanwadwyr – pobl Cymru – yn brif hyrwyddwyr ein brand. Byddwn hefyd yn sefydlu dull gweithredu newyddiaduraeth newydd er mwyn caffael straeon a lleisiau lleol, ac yn rhoi ffordd gyflym o rannu'r cynnwys hwn â marchnadoedd rhyngwladol yn gyflym, gan gysylltu Bro a Byd drwy dechnoleg ddigidol.

Byddwn yn parhau i ailgydbwysu cyllidebau cyfryngau traddodiadol fel gwariant teledu o blaid cyfryngau digidol, a byddwn yn cyrchu'n fewnol weithgarwch a gaiff ei gyrchu'n allanol ar hyn o bryd er mwyn ehangu ein tîm digidol mewnol yn sylweddol.

Byddwn hefyd yn gwneud llawer i annog y diwydiant ei hun i ddatblygu sgiliau digidol, yn enwedig ym maes dosbarthu cynnyrch a'r gallu i'w fwcio ymlaen llaw. Fel rhan o hyn, byddwn yn cydweithio â phartneriaid yn y llywodraeth a'r tu allan er mwyn ystyried potensial defnyddio'r dechnoleg ddigidol ddiweddaraf i wella taith y cwsmer o'r dechrau i'r diwedd.

Canolfan Ragoriaeth Croeso Cymru.

Byddwn yn sefydlu Canolfan Ragoriaeth Croeso Cymru, gan weithredu fel canolfan ffisegol ar gyfer y brand, a gwasanaethu fel man cydleoli a chreu ar gyfer gweithwyr proffesiynol yn ein sector i gydweithio mewn ffordd hyblyg ac ystwyth i hyrwyddo Cymru i'r byd, gan ddefnyddio arloesedd digidol. Gan weithio mewn partneriaeth â'r sector preifat a doniau creadigol gorau Cymru, bydd y tîm yn dod yn fwy gweladwy, gan roi gwell arweinyddiaeth a chymorth i sectorau newydd a busnesau unigol drwy ardal gweithdy hwb a thrwy weminarau digidol.

Bydd hyn yn cynnwys atgyfnerthu ein cefnogaeth i fusnesau wella eu marchnata digidol eu hunain, a bydd hefyd yn ystyried ffyrdd o ddod yn fwy masnachol yn ein hymagwedd at ein brand a'n marchnata, o fewn ffiniau rheolau cymorth gwladwriaethol.



Sector cysylltiedig a bywiog.

Camau Gweithredu

Ymgysylltu'n effeithiol â'r diwydiant a helpu uno llais y sector

Data a dealltwriaeth well yn seiliedig ar anghenion y diwydiant

Swyddogaeth strategaeth a pholisi cryfach polisi cryfach

Croeso Cymru sy'n ystwyth ac yn ymatebol

Mae'r diwydiant twristiaeth yn effeithio ar bob rhan o Gymru.

Rôl Croeso Cymru – fel rhan o Lywodraeth Cymru – yw cydnabod a chydlynu'r cyfraniad y gall amrywiaeth eang o barneriaid ei wneud i economi ymwelwyr Cymru, a manteisio ar hynny, ynghyd â gwireddu potensial twristiaeth ei hun i ategu llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol pob math o gymuned ledled Cymru.

Ar yr un pryd, fel rhan o'r economi sylfaenol, mae angen inni barhau i gydweithio'n agos gyda'r timau Gweithredu Economaidd Rhanbarthol er mwyn sicrhau bod ein ffocws a'n buddsoddiadau'n cael eu cysoni er mwyn cyflawni buddiannau ar gyfer Cymru gyfan.

Ymgysylltu'n effeithiol â'r diwydiant a helpu uno llais y sector.

Mae'n bwysig bod y sector yn dod ynghyd er mwyn nodi materion cyffredin a dod o hyd i atebion arloesol ond ymarferol ar gyfer rhoi heriau ar waith.

Rydym yn gwerthfawrogi'r mewnbwn a'r adborth gan bob aelod o'n fforymau rhanbarthol; er mwyn cydnabod hyn ac yn unol ag adborth gan y diwydiant, byddwn yn cynnal y dull gweithredu pedwar rhanbarth tuag at ymgysylltu â thwristiaeth – gan barhau i gefnogi ein Fforymau Twristiaeth rhanbarthol gweithredol ynghyd â cheisio atgyfnerthu eu cyfranogiad yn y sector preifat. Byddwn yn ehangu un cyfarfod ym mhob rhanbarth bob blwyddyn er mwyn ymgymryd ag ystyriaethau cymunedol a lleol ehangach.

Dros y ddwy flynedd nesaf, byddwn hefyd yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn archwilio ffyrdd o ddwyn y sector preifat ynghyd i sicrhau bod gan y diwydiant lais effeithiol ar y cyd sy'n cynrychioli amrywiaeth eang o ddiddordebau – gan gefnogi ei fuddiant yng Nghymru.

Mae Wythnos Twristiaeth Cymru yn gyfle gwych i ddangos gwerth twristiaeth. Byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant cyfan er mwyn datblygu Wythnos Twristiaeth Cymru.

Roedd y broses o wella a gwarchod ein hamgylchedd naturiol yn neges glir a ddeilliodd o'n sgwrs ac o'r herwydd mae'n ganolog i'r cynllun hwn. Gan fod ein gwaith brand blaenorol wedi nodi hyn fel un o'n pwyntiau gwerthu unigryw, mae bellach angen i ni ddatblygu fforwm lle gall rhanddeiliaid y diwydiant gyfarfod er mwyn archwilio materion a rhannu cyfleoedd byddwn yn sefydlu gweithgor 'twristiaeth a'r amgylchedd naturiol' yn 2020/21.

Mae cymdeithasau twristiaeth yn chwarae rôl allweddol o ran cyflawni hyn oll, ac er na allwn eu hariannu, lle y bo'n ymarferol byddwn yn gweithio gyda nhw er mwyn sicrhau cysylltiadau mor gryf â phosibl rhwng pob haen, gan eu cynnwys yn y fforymau a sicrhau bod adborth yn dod o'r fforymau i'r grwpiau lleol. Byddwn hefyd yn cymryd dull gweithredu mwy rhagweithiol tuag at ymgysylltu â chymunedau ac ardaloedd lleol ehangach sy'n cynnal ein sector drwy strwythurau Rheoli Cyrchfannau diwygiedig.

Rydym yn gwerthfawrogi'n llawn y bydd yr uchod ond yn effeithio ar y ffordd rydym yn ymgysylltu â chanran fach o'r diwydiant, felly mae angen i ni roi hwb i'n gallu ehangach i ymgysylltu â'r diwydiant, gan ddefnyddio dulliau cyfryngau cymdeithasol i greu'r effaith orau. Caiff hyn oll ei ategu gan ddulliau gwell o ymgysylltu â'r diwydiant ac atgyfnerthu arweiniad Croeso Cymru a'i bartneriaid.

Byddwn yn parhau i gynnal ein Gwobrau Twristiaeth Cenedlaethol a'n Huwchgynhadledd Twristiaeth bob dwy flynedd, gan ddefnyddio'r Gwobrau Twristiaeth Cenedlaethol nesaf ym mis Mai 2020 i gyflwyno ein dull rhanbarthol newydd o wobrwyo. Rydym yn ymrwymedig i gynnal y digwyddiadau hyn ledled Cymru a byddwn yn cynnal yr Uwchgynhadledd Twristiaeth nesaf yn 2021 yn y gogledd, gan roi cyfle i'r diwydiant archwilio syniadau cynnyrch newydd dros raglen o ddau ddiwrnod a fydd yn cynnwys, am y tro cyntaf, uwchgynhadledd ieuenctid er mwyn manteisio ar frwdfrydedd ein cenhedlaeth iau i sicrhau diwydiant twristiaeth cynaliadwy.



Data a dealltwriaeth well yn seiliedig ar anghenion y diwydiant.

Er mwyn gweithredu'n effeithiol – yn cynnwys gallu gwneud penderfyniadau buddsoddi da – mae angen i'n sector gael mynediad i'r data diweddaraf. Mae hwn yn fyd sy'n llawn data, ond ein her ni yw manteisio ar y data hyn, a'r ffeithiau a'r ffigurau sydd ar gael i ni, er mwyn cynnig arweinyddiaeth ystyrlon a hirdymor i'r sector ehangach, yn ogystal â phartneriaid leded y byd a thu hwnt. Mae llawer y gellir ei wneud hefyd er mwyn dysgu am ein cymunedau a'n lleoedd gan gynnwys yr hyn sydd ganddynt i'w gynnig neu'r hyn maent yn poeni amdano, a hefyd gwersi o wledydd a chyrchfannau eraill er mwyn datblygu ein diwydiant mewn ffyrdd newydd ac allblyg.

Dros y pum mlynedd nesaf, bydd angen i ni fod yn fwy rhagweithiol o ran rhoi gwybodaeth amserol i'r diwydiant, a chyfathrebu ymchwil yn well. Ein nod fydd bod yn fwy o ganolfan; canolbwynt ar gyfer llunio, coladu a chyfathrebu gwybodaeth am y farchnad mewn partneriaeth â'r diwydiant a rhan-ddeiliaid lleol.



Swyddogaeth strategaeth a pholisi cryfach.

Nid yw'r sector twristiaeth yn gweithredu ar ei ben ei hun – mae hefyd angen i ymwelwyr gael cysylltiadau trafnidiaeth, cyrchfannau bywiog sy'n agored i fusnes ac adnoddau naturiol a diwylliannol a reolir yn dda. Rydym am wneud mwy i ddylanwadu ar raglenni a blaenoriaethau eraill y llywodraeth a'r sector cyhoeddus yn ehangach, yn cynnwys iechyd ac adfywio, drwy strategaeth gryfach a swyddogaeth polisi cryfach.

Er enghraifft, dywedodd y diwydiant wrthym fod seilwaith a thrafnidiaeth yn ffactorau pwysig sy'n effeithio ar ddyfodol twristiaeth yng Nghymru. Mewn ymateb, byddwn yn gweithio gyda chyrrff Trafnidiaeth a Seilwaith, Trafnidiaeth Cymru a Maes Awyr Caerdydd yn ogystal â meysydd awyr porth eraill sy'n gwasanaethu Cymru er mwyn canolbwyntio ar ddatblygu llwybrau yn ogystal â blaenoriaethau ehangach o ran cysylltiadau trafnidiaeth – a chysylltiadau digidol wrth gwrs – er mwyn sicrhau y caiff rhaglenni seilwaith pwysig eu darparu gan ystyried ein sector. Byddwn hefyd yn gweithio mewn partneriaeth ar gydweithrediadau creadigol sydd o fudd i bawb – fel Ffordd Cymru.


Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i archwilio rhinweddau treth twristiaeth bosibl. Nododd ein sgwrs rai pryderon mewn perthynas â'r cynnig hwn a byddwn yn gweithio ar gais am dystiolaeth yn 2020, gan geisio deall cyfleoedd, heriau a goblygiadau treth bosibl. Bydd hyn yn cynnwys canolbwyntio ar asesu'r effaith debygol ar y sector yn gyffredinol, ar y gymuned fusnes ehangach, ac ar y lleoedd y mae twristiaeth yn effeithio arnynt fwyaf. Mae'r cais am dystiolaeth yn cyd-fynd ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i dryloywder yn y broses o ddatblygu polisi treth yng Nghymru ac i godi ymwybyddiaeth a chynnwys ein rhan-ddeiliaid yn y broses. Lle gweinyddiaeth Llywodraeth Cymru yn y dyfodol yn dilyn etholiad y Cynulliad ym mis Mai 2021 fydd unrhyw benderfyniadau a wneir yn y dyfodol ar gynigion treth twristiaeth.

Yn olaf, byddwn yn ystyried diweddau'r Nodyn Cyngor Technegol sy'n pennu'r fframwaith ar gyfer twristiaeth yn y broses gynllunio, i adlewyrchu newidiadau i'r system gynllunio ehangach yn ogystal ag adborth gan y sector.

Croeso Cymru sy'n ystwyth ac yn ymatebol.

Fel rhan o Lywodraeth Cymru, mae gan Croeso Cymru y fantais o allu gweithio gydag adrannau eraill er mwyn cysylltu twristiaeth â blaenoriaethau ehangach y llywodraeth, ond mae'n golygu ein bod yn gweithredu mewn ffordd sy'n wahanol i gyrrff twristiaeth cyfatebol eraill yn y DU. O ganlyniad, nid yw pawb yn glir ynghylch y ffordd y mae Croeso Cymru yn gweithredu, na'r amrywiaeth o bethau y mae ein timau hynod ymrwymedig yn eu cyflawni, o gymorth llinell flaen i ficrofusnesau i bartneriaethau â chwmnïau hedfan mawr, neu ddigwyddiadau masnach yn Japan i ŵyl gomedi ym Machynlleth. Er mwyn helpu'r sector a'n partneriaid eraill, byddwn yn cyhoeddi canllaw syml ar waith Croeso Cymru gan bennu yr hyn rydym yn ei wneud a sut rydym yn gweithredu.

Mae trosolwg byr o'n cynlluniau i ailstrwythuro Croeso Cymru er mwyn cyflawni'r cynllun hwn wedi'u cynnwys yn yr adran Gweithredu isod.



Blaenoriaethau masnachol.

Mae'r cynllun hwn yn rhan o'n nod i gyflawni buddiannau eang 'Economi a mwy' drwy dwristiaeth. Mae'n fwy na rhywbeth da i'w wneud ynddo'i hun – credwn fod llwyddiant economaidd Cymru ar hyn o bryd ac yn y dyfodol yn dibynnu ar groesawu tueddiadau newydd tuag at dwristiaeth gyfrifol, a phrofiadau gwreiddiol i ymwelwyr.


Felly, nod ein cynllun yw targedu'r farchnad. Rydym am sicrhau bod Cymru mewn sefyllfa gystadleuol gref ar gyfer y dyfodol. Dros y blynyddoedd nesaf rydym am wella ein ffocws masnachol a'n gallu i gefnogi proffidioldeb y diwydiant.

Llwybrau gwell i'r farchnad.

Mae gan Gymru sail cynnyrch gref eisoes, ond gall fod yn anodd i ymwelwyr ganfod y profiadau hyn neu eu prynu. Mae posibilrwydd sylweddol hefyd o greu profiadau newydd ar gyfer ymwelwyr yn y dyfodol gan adeiladu ar yr hyn sydd gennym eisoes, ac i gyflwyno'r rhain yn y farchnad gydag egni o'r newydd, fel chwaraewyr unigol ac fel timau cyrchfannau.

Mae'n amlwg mai proses gylchol yw hon lle mae'r dosbarthwyr yn llywio'r cynnyrch, a lle mae gwerthiannau yn llywio natur ein harlwy. Mae data a gwybodaeth yn allweddol i lwyddiant. Dros y pum mlynedd nesaf, byddwn yn gwneud newidiadau sylweddol i'n rhaglen gyflenwi'r farchnad er mwyn ein galluogi i gydweithio'n agosach â'r diwydiant i greu dull gweithredu o'r dechrau i'r diwedd ar gyfer datblygu a hyrwyddo cynhyrchion sy'n addas i ofynion cwsmeriaid. Caiff y gwaith ei arwain gan y tîm busnes i fusnes yn yr Adran Farchnata a bydd y blaenoriaethau newydd yn cynnwys:

- Gweithio gyda'r diwydiant er mwyn gwella ein dealltwriaeth o'r dirwedd dosbarthu yn cynnwys adolygu strwythur Rheoli Cyrchfannau yng Nghymru
- Datblygu dull gweithredu ar gyfer dosbarthu cynnyrch newydd, sy'n cyd-fynd â'r modelau partneriaeth fasnachol a amlinellir isod
- Diwygio ein rhaglen BiB, yn cynnwys sicrhau presenoldeb annibynnol mewn digwyddiadau allweddol a dull strwythuredig o weithio gyda'r diwydiant
- Codi proffil gweithredwyr yng Nghymru yn y farchnad ehangach.



Canolbwyntio ar brofiadau o ddiddordeb arbennig.

Ceir tystiolaeth gref y gall nodi is-set fach o brofiadau o ddiddordeb arbennig sydd â photensial go iawn i dyfu yn y dyfodol, fydd yn bodoli o dan yr arlwy craidd – helpu i ddiffinio delwedd ein gwlad ac annog ymwelwyr newydd i ystyried ymweld â hi, yn enwedig yn ystod y tymhorau bob pen i'r prif dymor.

Byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant a phartneriaid fel Cymru Greadigol, Cadw a Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu cynhyrchion penodol y gellir eu gwerthu sy'n cyd-fynd â'n harlwy craidd ynghyd â gweledigaeth ein brand i wneud Cymru yn enwog am ei thirweddau naturiol, ei diwylliant a threftadaeth a'i harlwy antur/gweithgareddau.

Amlinellir y cynhyrchion cychwynnol isod a byddwn yn adolygu'r rhestr hon yn rheolaidd, yn seiliedig ar y graddau y maent yn cyd-fynd â'r brand, cefnogaeth gan y diwydiant, potensial economaidd a chyfraniad parhaus at yr agenda llesiant ehangach.

Byddwn hefyd yn parhau i fuddsoddi mewn marchnadoedd twf arbenigol fel twristiaeth Mordeithiau a Morol, gan werthuso effaith economaidd y rhaglen hon yn erbyn ei heffaith amgylcheddol er mwyn sicrhau dull gweithredu cynaliadwy sy'n sicrhau buddiannau llesiant eang o gael ei reoli'n ofalus.

Arlwy craidd Cymru		
Tirweddau naturiol eithriadol Tirweddau naturiol hygyrch, gwarchodedig – sy'n cynnig profiadau llesiant ystyrlon, safonol a chyfoes.	Diwylliant creadigol Arlwy diwylliannol a threftadaeth drefol a gwledig sy'n unigryw ond sy'n hynod greadigol a chyfoes, a gaiff ei greu ar y cyd â phobl leol ac a gaiff ei werthfawrogi gan ymwelwyr.	Antur epic Anturiaethau, digwyddiadau a gweithgareddau arloesol o'r radd flaenaf – sy'n rhoi bywyd i'n tirweddau ôl-ddiwydiannol a naturiol ac yn annog pawb i fyw bywyd iach.
Croeso: llety unigryw a bwyd a diod lleol		
Ffordd Cymru		
Profiadau penodol		
Llwybr Arfordir Cymru, Llwybr Clawdd Offa a Llwybrau Cenedlaethol Golff	Twristiaeth treftadaeth Ffilm a Theledu	Beicio mynydd a seiclo
Twristiaeth Mordeithiau a Morol		

Partneriaethau masnachol.

Rydym yn cydweithio gydag amrywiaeth eang o bartneriaid yn cynnwys cwmnïau hedfan, allfeydd cyfryngau, atyniadau ymwelwyr, sefydliadau chwaraeon mawr, gweithredwyr teithio ymysg sawl un arall. Drwy weithio gyda'r partneriaid cywir rydym yn adeiladu ein harbenigedd, yn rhoi hwb i'n cyllidebau, yn cyflawni mwy o effaith ac yn ein helpu ein hunain i weithio'n fwy effeithlon a gyda mwy o awdurdod na'r hyn y gallem ei wneud ar ein pennau ein hunain. Ac yn ogystal ag ehangu effaith ein dulliau cyfathrebu, mae partneriaethau da yn sicrhau bod cynhyrchion twristiaeth Cymru yn haws i'w canfod a'u trefnu ymlaen llaw.

Fel rhan o'r cynllun hwn, byddwn yn newid pwyslais ac yn adeiladu ein gallu i weithio mewn partneriaeth. Bydd dewis y partneriaethau cywir yn ein galluogi i helaethu, ehangu ac ychwanegu gwerth i'n hymdrechion dosbarthu cynhyrchion marchnata a thwristiaeth. Bydd hyn yn bwydo i'r gwaith y byddwn yn ei wneud i wella llwybrau i'r farchnad, fel yr amlinellwyd yn flaenorol. Mae angen i ni ddatblygu llai o bartneriaethau sy'n fwy ac yn well, a sicrhau bod dealltwriaeth glir o'r hyn y gofynnir i bob ochr ei gyflawni, ac eglurder ar feini prawf a llwyddiant.



Blaenoriaethau llesiant.

Ein huchelgais graidd yw tyfu twristiaeth er budd Cymru. Ond sut wnawn ni hynny?

Cymru yw'r wlad gyntaf yn y byd i gyflwyno deddfwriaeth sy'n gorchymyn llesiant. Mae hyn yn golygu, wrth i gyrff cyhoeddus wneud eu penderfyniadau, bod angen iddynt ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol.

Gwyddom, drwy alluogi pobl i fwynhau bywydau mewn lleoedd ledled Cymru, y gall twristiaeth gyfrannu at lesiant cymdeithas ehangach, gan wella cymunedau a'u ffordd o fyw, a helpu i werthfawrogi a gwarchod yr amgylchedd naturiol a hanesyddol. Ond mae'n glir bod angen i dwristiaeth a'r diwydiant teithio gael eu rheoli'n ofalus er mwyn canfod ffyrdd o leihau rhai o'r effeithiau negyddol posibl, fel gormod o dwristiaeth ac allyriadau carbon drwy deithio.

Mae tyfu twristiaeth er budd Cymru yn golygu cyflawni twf economaidd sy'n sicrhau budd i bobl a lleoedd gan gynnwys cynaliadwyedd amgylcheddol, cyfoethogi cymdeithasol a diwylliannol a buddiannau iechyd.

Dyma sut y byddwn yn cyflawni'r buddiannau ehangach hynny drwy'r blaenoriaethau yn y cynllun hwn:

Nodau		
Twf economaidd sy'n cyflawni buddiannau i bobl a lleoedd gan gynnwys:		
Cynaliadwyedd amgylcheddol – cynnal adnoddau naturiol – gwella perfformiad amgylcheddol – annog trafnidiaeth gynaliadwy	Cyfoethogi cymdeithasol a diwylliannol – croeso cynnes i bawb – cyfleoedd i bobl ifanc – iaith a diwylliant sy'n ffynnu	Buddiannau iechyd – cyfleoedd newydd i fwynhau gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored – hyrwyddo ffyrdd egniol o fyw
Gwrandd ar drigolion, ymwelwyr a busnesau		

Cynaliadwyedd amgylcheddol.

Cynnal adnoddau naturiol.

Mae ein harlwy craidd yn seiliedig ar dirweddau eithriadol y mae pawb yn gofalu amdanynt – tirweddau naturiol hygyrch, gwarchodedig, yn cynnwys ein hamgylchedd morol. Mae llawer o'r sefydliadau yng Nghymru sy'n gofalu am ein hadnoddau naturiol – fel Cyfoeth Naturiol Cymru, ein Parciau Cenedlaethol, sefydliadau cadwraeth bywyd gwyllt a morol, a hyd yn oed sefydliadau fel Dŵr Cymru – yn cynnig mwy a mwy o brofiadau o ansawdd uchel i ymwelwyr. Mae eu harlwy twristiaeth yn galluogi mwy o bobl i fwynhau ein hadnoddau naturiol gwych, ond mae hefyd yn helpu i wneud y sefydliadau hynny yn fwy cynaliadwy. Byddwn yn parhau i weithio gyda sefydliadau treftadaeth naturiol, morol a chefn gwlad yn eu helpu i ddatblygu eu harlwy i ymwelwyr.

Gwella perfformiad amgylcheddol.

Mae *Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel* yn nodi'r sylfeini i Gymru drawsnewid i fod yn wlad carbon isel mewn ffordd sy'n gwneud y gorau o'r buddiannau ehangach i Gymru, gan sicrhau cymdeithas decach ac iachach yn unol â thargedau Llywodraeth y DU o ddim allyriadau net a datganiad Llywodraeth Cymru o argyfwng hinsawdd.

Mae twristiaeth yn gyfle ac yn her o ran datgarboneiddio. Mae trafnidiaeth yn cyfrif am 16% o allyriadau yng Nghymru yn 2016. Mae 54% o hyn o geir, mae 1% o reilffyrdd ac mae 1% o hediadau rhyngwladol. Ar y llaw arall, mae cyfleoedd i leihau allyriadau carbon drwy'r ffordd y mae busnesau yn gweithredu, a hefyd drwy annog teithio mwy cynaliadwy.

Yn y dyfodol, byddwn yn parhau i geisio ffyrdd o wella perfformiad amgylcheddol busnesau twristiaeth, er enghraifft, drwy'r canlynol:

- parhau i ddatblygu ein pecyn cymorth cynaliadwyedd sy'n helpu busnesau i ystyried ynni, gwastraff, dŵr, bioamrywiaeth a llygredd, gan adlewyrchu Adnodd Busnes Ymaddasu i Newid yn yr Hinsawdd Llywodraeth Cymru, a
- mynd ati i ddatblygu a marchnata teithio cynaliadwy – yn enwedig i farchnadoedd yn y DU ac ymwelwyr rhyngwladol sy'n teithio i Gymru drwy ganolfannau trafnidiaeth allweddol yn Lloegr ac Iwerddon.

Byddwn hefyd yn disgwyl i'r prosiectau cyfalaf a ariennir gennym ymrwymo i leihau eu hól-troed carbon yn unol â phedair elfen ein Contract Economaidd ac yn unol â'r polisiau yn 'Cymru Carbon Isel'.

Fel rhan o'n cynllun graddio, byddwn yn parhau i weithio gyda busnesau er mwyn eu helpu i leihau eu hól-troed carbon, a gweithio gyda phartneriaid masnach rhyngwladol allweddol i'w hannog i weithredu mewn ffordd fwy cynaliadwy.

Annog trafnidiaeth gynaliadwy.

Un o'r prif flaenoriaethau ar gyfer y *Cynllun Gweithredu Carbon Isel* yw lleihau allyriadau yn y sector trafnidiaeth 43% o'r lefelau sylfaenol erbyn 2030. Mae'r cynllun hwnnw yn awgrymu mai'r ffordd fwyaf effeithiol o wneud hyn yn y dyfodol agos yw defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a thrafnidiaeth egniol yn lle teithiau car. Mae'r cynllun hefyd yn annog pobl i ddechrau defnyddio cerbydau trydan, felly er mwyn ein helpu i wneud hyn, byddwn yn archwilio opsiynau ar gyfer cyflwyno mannau gwefru trydanol fel rhan o'r seilwaith twristiaeth, yn cynnwys Ffordd Cymru.

Er gwaethaf y ffaith bod y cyfraniad y mae hediadau rhyngwladol yn ei wneud i allyriadau trafnidiaeth yng Nghymru yn gymharol isel, a bod ymwelwyr rhyngwladol sy'n ymweld â Chymru yn defnyddio meysydd awyr Manceinion, Birmingham a Lerpwl yn ogystal â Maes Awyr Caerdydd, rydym yn cydnabod bod hyn yn broblem o hyd i Gymru. Yn hytrach nag annog pobl i beidio â gwneud teithiau rhyngwladol – sy'n gwneud cyfraniad hirdymor pwysig i swyddi a gwariant yng Nghymru – byddwn yn gweithio gyda Maes Awyr Caerdydd ac eraill er mwyn ymchwilio i ddulliau newydd o ddefnyddio'r broses gwrthbwyso carbon sydd o fudd i Gymru.

Gall gormod o dwristiaeth fod yn broblem mewn rhai ardaloedd o Gymru, felly yn ogystal â'r nod o ledaenu twristiaeth ledled Cymru, byddwn yn archwilio'r defnydd o 'Ddata Mawr' er mwyn olrhain llifoedd ymwelwyr ar adegau prysur ac mewn ardaloedd penodol.

Cyfoethogi cymdeithasol a diwylliannol.

Rhoi croeso cynnes i bawb.

Dros y pum mlynedd diwethaf rydym wedi cyflwyno mwy o dwristiaeth gynhwysol yng Nghymru drwy ariannu gwell hygyrchedd i lety gwyliau ac atyniadau ymwelwyr er enghraifft. Mae ein cynllun graddio hefyd yn gofyn i fusnesau sicrhau bod croeso i bawb.

Ond mae hygyrchedd yn broblem gynyddol. Wrth i ni – a'n hymwelwyr – fynd yn hŷn, bydd mwy a mwy ohonom yn wynebu heriau mewn perthynas â hygyrchedd. Mae tua un o bob pedwar ohonom yng Nghymru eisoes yn cael ein cydnabod yn anabl – y ganran uchaf yn y DU. Mae chwarter yr ymweliadau dros nos a theithiau dydd twristiaeth yng Nghymru gan drigolion o Brydain Fawr yn cynnwys rhywun yn y parti sydd â nam.

Yn ogystal â'r ffaith bod hyn yn bwysig ynddo'i hun, mae busnesau hygyrch a thargedu marchnadoedd hygyrch yn gwneud synnwyr economaidd da. Caiff tua £5.45 biliwn ei wario gan ymwelwyr dros nos domestig lle mae gan aelod o'r parti nam, ac mae'r gyfran honno yn tyfu o ran nifer a gwerth. Mae hyn yn cynrychioli tua £440 miliwn yng Nghymru. Mae llawer o'r grwpiau hyn hefyd yn cynnwys pobl ifanc wrth i fwy a mwy o deuluoedd fwynhau gwyliau aml-genedlaethol.

Mae'n bwysig bod profiad ymwelwyr yng Nghymru yn adlewyrchu ein hymrwymiad i gefnogi pobl anabl, gan ddileu'r rhwystrau a all atal pawb atal rhag mwynhau eu hamser yma i'r eithaf. Mae *Fframwaith Gweithredu ar Anabledd Llywodraeth Cymru* yn ein hymrwymo i roi'r model cymdeithasol o anabledd ar waith – gan gydnabod mai agweddau a chyfleustodau sy'n creu problemau, nid cyflyrau meddygol unigol. Gall twristiaeth chwarae rôl allweddol yn hyrwyddo'r model hwn a'i roi ar waith, drwy wella mynediad i gyfleusterau a thrwy hyfforddi staff. Mae'r dull gweithredu hwn yn cyd-fynd yn agos â'r ymrwymiad newydd Bargaen y Sector yn y DU ar gyfer twristiaeth ar gyfer sicrhau mai'r DU yw'r gyrchfan fwyaf hygyrch yn Ewrop erbyn 2025.

Nod y cynllun hwn yw sicrhau y gall pawb sy'n teithio yng Nghymru fod yn hyderus y byddant yn cael croeso cynnes. Byddwn yn gwneud hyn drwy sicrhau bod hygyrchedd a chynhwysiant yn rhan o bopeth a wnawn, er enghraifft:

- drwy'r ffocws newydd ar gyllid ar gyfer Y Pethau Pwysig a fydd yn cynnwys hygyrchedd,
- drwy ddisgwyl i bob datblygwr gynnwys elfennau hygyrchedd gwyb wrth gynllunio o'r cychwyn drwy safonau Dylunio Cyffredinol,

Cyfleoedd i bobl ifanc.

Mae atgofion o wyliau plentyndod yn aros gyda ni drwy gydol ein bywydau. Rydym am helpu cynifer â phosibl o blant i gael gwyliau yng Nghymru a byddwn yn mynd ati i weithio gyda'r diwydiant er mwyn canfod cyfleoedd newydd i wneud i hyn ddigwydd.

Byddwn hefyd yn gweithio gyda phartneriaid a'r sector preifat er mwyn sefydlu (fel rhan o Wythnos Twristiaeth Cymru o bosibl) gŵyl o brofiadau am ddim/â chymhorthdal i blant (yn cynnwys gofalwyr ifanc) gan ddilyn brand ymgyrch arloesol wedi'i dargedu at blant. Y nod fydd cyflwyno profiadau amrywiol Cymru i amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd newydd, ynghyd â datblygu balchder ac adeiladu ein henw da fel cyrchfan gynhwysol, sy'n addas ar gyfer teuluoedd ac sy'n rhoi croeso i bawb.

Rydym hefyd yn credu bod llesiant pawb yn bwysig, a bod pawb yn haeddu gwyliau, waeth beth fo eich amgylchiadau. Yn unol â dull gweithredu integredig Llywodraeth Cymru tuag at iechyd a gofal cymdeithasol, byddwn yn annog y sector i weithio gyda gwasanaethau'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector sy'n rhoi mynediad i ofal cymdeithasol a chymorth, neu'n eu darparu, yn ogystal â gwybodaeth, cyngor a chymorth ataliol.

Gwrando ar drigolion, ymwelwyr a busnesau.

Mae a wnelo'r cynllun hwn â phobl. Wrth wraidd y cynllun hwn mae'r syniad y gall yr hyn sy'n dda i ymwelwyr fod yn dda i bawb yng Nghymru.

Mae hyn yn golygu bod angen i ni sicrhau bod pobl leol yn cael budd o economi ymwelwyr sy'n ffynnu, a'u bod yn gyfforddus â hynny. Mae angen i ni ddysgu mwy ynghylch barn pobl yng Nghymru am dwristiaeth. Byddwn yn gwrando ar leisiau trigolion, ynghyd â'r gwaith rydym eisoes yn ei wneud gyda'r sector drwy ein baromedr busnes a'n harolygon boddhad ymwelwyr rheolaidd. Rydym am gael safbwynt mwy cyflawn o dwf twristiaeth – ei effeithiau cadarnhaol, a'i feysydd o bryder yn y dyfodol.

Byddwn yn defnyddio'r canlyniadau er mwyn llywio sesiynau Fforwm Twristiaeth rhanbarthol agored unwaith y flwyddyn mewn cymunedau sy'n wynebu'r pwysau mwyaf, i drafod syniadau polisi a gwelliannau yn y dyfodol sy'n cyflawni'r cydbwysedd gorau posibl rhwng disgwyliadau ymwelwyr a boddhad lleol.

Drwy ein sioeau teithiol twristiaeth blynyddol parhaus, byddwn hefyd yn gwneud mwy i ymgysylltu â grwpiau cymunedol lleol (drwy grwpiau ieuencid) ynghyd â chwaraewyr diwydiant traddodiadol.

laith a diwylliant sy'n ffynnu.

Mae diwylliant nodedig Cymru a'i hiaith fyw yn ffynhonnell o gryfder i bobl Cymru. Rydym am i ymwelwyr deimlo'r egni hwn, ac i ddiwylliant Cymru a'r iaith gyfoethogi eu profiadau.

Mae diwylliant yn golygu sawl peth yng Nghymru. Mae i'w weld yn ein henebion anhygoel, neu'r trefi a thirweddau a gaiff eu llunio gan hanes Cymru. Mae'n rhan o straeon, mythau a thraddodiadau Cymru, ac o gyfoeth yr iaith. A chaiff ei hailddarganfod a'i hailddyfeisio yn barhaus gan bob cenedlaeth newydd, drwy gerddoriaeth, llenyddiaeth, ffilm, celf a digwyddiadau.

Mae twristiaeth, diwylliant ac iaith wedi'u cydgysylltu'n agos. Mae'r sector twristiaeth yn darparu'r llety, y cyfleusterau a'r seilwaith sy'n galluogi ein pobl ifanc i weithio yn eu cymunedau, ac yn galluogi ein gwesteion i ddysgu am ddiwylliant Cymru a'i hiaith, eu defnyddio a'u mwynhau.

Mae treftadaeth yn rhan bwysig o'n diwylliant, a dros y pum mlynedd diwethaf mae twristiaeth wedi gwneud cyfraniad sylweddol i dreftadaeth yng Nghymru drwy helpu i adfywio trefi hanesyddol, canfod defnyddiau newydd a chreadigol i adeiladau hanesyddol, neu alluogi pobl i gael anturiaethau gwych mewn hen dirweddau diwydiannol.

Gan edrych i'r dyfodol, gellir gwneud mwy; yn unol â *Cymraeg 2050 – strategaeth genedlaethol* Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, mae'r cynllun hwn yn ymgorffori'r gwaith o warchod a hyrwyddo ein naws am le, ein diwylliant a'n hiaith yn ein holl weithgareddau yn y dyfodol drwy roi arweiniad cliriach i bartneriaid buddsoddi, drwy ein gwaith yn cefnogi digwyddiadau cynhenid, drwy gyflwyno rhaglenni naws am le gwell, drwy'r cynllun sicrhau ansawdd newydd ac yn ein holl waith marchnata brand.

Byddwn hefyd yn ceisio cefnogi mentrau i ddatblygu cynhyrchion a phrofiadau diwylliannol Cymreig penodol y gellir eu bwcio ymlaen llaw – sy'n wreiddiol ac yn gyfoes iawn – i'w hyrwyddo mewn digwyddiadau ac ar-lein yn y dyfodol.



Buddiannau iechyd.

Mae Cymru yn symud oddi wrth ddull gweithredu ar iechyd sydd wedi'i leoli mewn ysbyty tuag at un sydd hefyd yn cydnabod pwysigrwydd ffactorau cymdeithasol fel ymarfer corff neu unigrwydd a theimlo'n ynysig, ac mae'r rhain yn feysydd lle gall twristiaeth wneud gwahaniaeth.

Mae cymryd amser i ffwrdd yn bwysig, nid yn unig i'n hiechyd corfforol, ond mae ganddo hefyd fuddiannau cymdeithasol hirdymor, drwy dreulio amser yn ymlacio, ailgysylltu â ffrindiau a theulu a chael amser i ffwrdd – ac i ofalwyr ifanc gael bod yn blant a dim arall.

Ceir ymchwil hefyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru sydd wedi archwilio cyfraniad gweithgarwch hamdden ac adloniant yn yr awyr agored tuag at iechyd da. Ond er bod mwy nag 80% o'r oedolion yng Nghymru yn cymryd rhan mewn rhyw fath o weithgarwch hamdden o leiaf unwaith y flwyddyn, dim ond 18% sy'n gwneud hynny'n rheolaidd. Mae llawer o waith i'w wneud o hyd er mwyn cyrraedd ein targedau ar gynyddu gweithgarwch corfforol yng Nghymru.

Cymru *lachach* yw gweledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n ystyried atal, gwella iechyd ac anghydraddoldeb yn allweddol er mwyn sicrhau llesiant cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru. Gall twristiaeth gyfrannu at y flaenoriaeth drawslywodraethol hon mewn sawl ffordd: fel arfer, mae twristiaeth yn helpu i gynnal y seilwaith cymdeithasol sylfaenol – o barciau i fannau cyhoeddus – sy'n cyfoethogi bywydau pobl leol yn ogystal ag ymwelwyr.

Gweithgarwch a chyfleoedd llesiant newydd.

Byddwn yn buddsoddi mewn cyfleusterau – yn cynnwys prif fuddsoddiadau – sy'n ysgogi balchder yn arlwy antur Cymru ac sy'n cynnig mynediad i amrywiaeth eang o ymwelwyr – yn cynnwys ein cymunedau – i weithgarwch a chyfleoedd llesiant newydd. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau ein bod yn cynnig gweithgarwch/cyfleusterau awyr agored ger prif ganolfannau poblogaidd, fel de-ddwyrain Cymru ac yn gweithio gyda phartneriaid ar fentrau fel Llwybr Arfordir Cymru. Byddwn hefyd yn sicrhau bod antur a gweithgarwch yn greiddiol i frand Cymru a'n gwaith marchnata yng Nghymru.

Hyrwyddo ffyrdd egniïol, cysylltiedig o fyw.

Yn y pen draw, mae a wnelo twristiaeth â phrofiadau a chysylltiadau – p'un a yw hynny'n golygu ymweld â lleoedd newydd a gwneud ffrindiau newydd, neu ailgysylltu â ffrindiau a theulu a lleoedd cyfarwydd. P'un a yw'n golygu cymryd rhan mewn anturiaethau awyr agored, neu archwilio lleoedd newydd, yn aml ar droed, rydym yn tueddu i fod yn fwy egniïol ar ein gwyliau. Mae ein tirwedd, ein diwylliant a'n harlwy antur yng Nghymru i bawb – a byddwn yn gwneud mwy er mwyn eu hyrwyddo, nid yn unig i ymwelwyr, ond i bawb yng Nghymru.



Gweithredu.

Mae angen i ni sicrhau bod Croeso Cymru yn cael ei drefnu, ac yn gweithredu, mewn ffordd a fydd yn ein galluogi i gyflawni'r cynllun hwn. Bydd hyn yn cynnwys y camau gweithredu canlynol.

Tim mewnol wedi'i ailstrwythuro

Mae gennym dîm medrus, ymroddedig ac ymrwymedig yn Croeso Cymru; byddwn yn defnyddio'r cynllun hwn fel y sail ar gyfer ailstrwythuro er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'r amcanion a geir ynddo.

Strwythurau llywodraethu diwygiedig

Byddwn yn adolygu ein strwythurau llywodraethu ac yn ystyried cyflwyno swyddogion anweithredol, sy'n eistedd ochr yn ochr â cynrychiolydd presennol VisitBritain yng Nghymru a chadeiryddion Fforwm Twristiaeth rhanbarthol. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn gallu gweithredu mewn ffordd sy'n adlewyrchu ein rolau yn y sector masnachol a'r sector cyhoeddus.

Cymorth busnes wedi'i symleiddio

Mae newid i system raddio am ddim yn rhan o gam gweithredu ehangach i symleiddio ein cymorth busnes; yn y dyfodol, y tîm graddio presennol fydd y pwynt cyswllt cyntaf neu'r rheolwyr cyfrif allweddol ar gyfer cyngor ehangach a chefnogaeth gan ein sefydliad.

Adolygu darpariaeth ar lefel leol

Rydym yn awyddus i adfywio a chanolbwyntio ein dull gweithredu ar reoli cyrchfannau. Caiff y dull partneriaeth o weithredu ei adolygu a chaiff Cynhadledd Rheoli Cyrchfannau ei sefydlu, fel yr amlinellir, er mwyn dechrau'r broses hon.

Dulliau newydd o gyflawni partneriaethau

Bydd dull newydd o weithio mewn partneriaeth yn golygu y byddwn yn symud o strwythur grant cymorth (gweithio gyda phartneriaid ar raglenni datblygu refeniw, arloesedd a marchnata) – i ddull gweithredu wedi'i gaffael, er mwyn sicrhau bod gweithgarwch rhanbarthol ac ar lefel cyrchfannau yn cyd-fynd â'n brand a'n hagenda cenedlaethol.

Mesur llwyddiant.

Diwydiant pobl yw twristiaeth, ac mae llwyddiant ein sector yn dibynnu yn y pen draw ar sicrhau bod pawb sy'n ymgysylltu â'n sector yn cael budd ohono: ymwelwyr, trigolion lleol, ac, yn hanfodol, partneriaid yn y sector ei hun.

Mae hyn yn golygu parhau i ddatblygu buddiannau economaidd twristiaeth, gan wneud y gorau o'i gyfraniad at ffyniant ledled Cymru, drwy ddiwydiant sy'n perfformio ar ei orau.

Ac mae'n golygu cyflawni llesiant ehangach – gwneud ein gorau i sicrhau bod twristiaeth yn cyflawni buddiannau amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol, ac iechyd ehangach i bawb yng Nghymru.

Buddiannau i bobl		
Byddwn yn defnyddio arolygon Croeso Cymru a data arall er mwyn olrhain boddhad ymwelwyr a thrigolion gyda thwristiaeth a hyder busnesau.		
Buddiannau economaidd a pherfformiad y diwydiant		
– Twf y sector – Twf dosbarthiad tymhorol – Twf mewn arenillion fesul ymwelydd – Twf yng nghyfraniad y sector at Werth Ychwanegol Gros		
Buddiannau llesiant		
Cynaliadwyedd amgylcheddol	Cyfoethogi cymdeithasol a diwylliannol	Buddiannau iechyd
Byddwn yn olrhain cyfraniad twristiaeth i'r mesurau llesiant cenedlaethol perthnasol.		



Arolwg Croeso Cymru

Caiff ein gwaith yn y dyfodol ei lywio drwy wrando ar y rhai sydd bwysicaf – y bobl y mae ein diwydiant yn effeithio arnynt fwyaf. Dros gyfnod y cynllun hwn, byddwn yn datblygu arolwg newydd Croeso Cymru sy'n ein galluogi i adrodd yn fwy rheolaidd ar y ffordd y mae pobl yn ei deimlo am dwristiaeth, gan edrych ar feysydd fel boddhad ymwelwyr, hyder busnesau a chanfyddiadau cymunedau lleol. Byddwn yn sicrhau ein bod yn deall y ffordd y mae pawb yng Nghymru yn cael budd o dwristiaeth, ac yn gallu cyfrannu ati – yn cynnwys pobl ifanc a grwpiau eraill.

Buddiannau economaidd a pherfformiad y diwydiant

Byddwn hefyd yn parhau i fonitro ein cynnydd yn erbyn amrywiaeth o fetrigau perfformiad traddodiadol ar gyfer y sector, gan weithio gyda'r sector er mwyn sicrhau ein bod yn darparu'r data sydd eu hangen arno.

Er mwyn olrhain perfformiad y diwydiant yn gyffredinol, bydd 'archwiliad iechyd' chwarterol ar gyfer y diwydiant yn edrych ar dwf y sector, gwariant a dosbarthiad tymhorol drwy fesurau fel a ganlyn:

- gwerth a niferoedd teithiau domestig dros nos o Brydain Fawr
- gwerth a niferoedd ymweliadau dydd gan dwristiaid domestig o Brydain Fawr
- gwerth a niferoedd ymweliadau rhyngwladol
- cyfraddau deiliadaeth llety a chyfraddau dyddiol

Byddwn yn adrodd yn flynyddol ar amrywiaeth ehangach o fesurau fel:

- gwariant gan ymwelwyr dros nos
- cyflogaeth yn y sector twristiaeth
- nifer y busnesau twristiaeth a'u trosiant
- cyfraniad at Werth Ychwanegol Gros
- nifer yr ymwelwyr newydd
- ymwybyddiaeth o frand a diddordeb mewn ymweld
- dosbarthiad tymhorol ymwelwyr a gwariant
- cyfran o'r farchnad ddomestig
- tueddiadau digidol fel trefnu a chwilio am wyliau yng Nghymru

Llesiant

Mae hefyd angen i ni ddeall y ffordd y mae twristiaeth yn cyfrannu at lesiant. Byddwn yn mapio'r dangosyddion llesiant cenedlaethol er mwyn canfod ble, sut ac os gall twristiaeth wneud cyfraniad. Caiff hyn ei wella drwy werthusiadau rheolaidd o'n buddsoddiadau gan ddefnyddio 'Bro' a 'Byd' fel fframwaith.

Gyda'n gilydd, bydd y mesurau hyn yn ein helpu i olrhain pa mor ddeniadol yw Cymru i drigolion ac ymwelwyr, i fonitro ansawdd cynnyrch a phrofiadau a hefyd i ystyried p'un a ydym yn defnyddio ein hadnoddau mor effeithlon ac effeithiol â phosibl, ac mewn ffordd sy'n cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Byddwn hefyd yn defnyddio'r data hwn a data arall er mwyn llywio darpariaeth uniongyrchol yn ogystal â'n polisiau hirdymor, sy'n golygu bod y cynllun hwn yn ddogfen fyw, sy'n esblygu.

All images © Hawlfraint y Goron 2020 oni bai am Barc Antur Eryri (© Parc Antur Eryri) ac ICC Cymru (© ICC Cymru.)

OGL © Hawlfraint y Goron 2020 WG39441 ISBN digidol 978-1-83933-945-5